



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mawrth 19 Mehefin 2001

Tuesday 19 June 2001

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Questions to the First Minister
- 19 Datganiad ar Ymweliad Prif Weinidog Cymru â De America
Statement on the First Minister's Visit to South America
- 29 Datganiad Busnes
Business Statement
- 30 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 34 Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion)(Cymru) (Diwygio) 2001
Approval of the Education (School Government)(Wales)(Amendment) Regulations 2001
- 40 Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 13
Approval of Special Grant Report No. 13
- 45 Deddf Llywodraeth Leol 2000
The Local Government Act 2000
- 83 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Llywodraeth Leol
Composite Motion: Approval of Local Government Orders

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister

Cyhoeddi Canlyniadau 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' Publication of the Outcomes of 'Putting Wales First'

Q1 Pauline Jarman: Does the First Minister have plans to publish the outcomes of 'Putting Wales First'? (OAQ12001)

C1 Pauline Jarman: A oes gan Brif Weinidog Cymru gynlluniau i gyhoeddi canlyniadau 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12001)

The First Minister (Rhodri Morgan): Following the statement that I made on the partnership agreement on 20 March, a copy of the achievements so far was sent to Members. As the Government of the Assembly, we remain accountable to the Assembly for our achievements, and will update the body of the kirk of the Assembly accordingly.

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Yn dilyn y datganiad a wneuthum ar y cytundeb partneriaeth ar 20 Mawrth, anfonwyd copi o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma i'r Aelodau. Fel Llywodraeth y Cynulliad, parhawn i fod yn atebol i'r Cynulliad am yr hyn a gyflawnwn, ac felly, cyflwynwn y wybodaeth ddiweddaraf i brif gorff y Cynulliad.

Pauline Jarman: Are you aware that it is widely believed that the commitment in 'Putting Wales First' to pilot the Welsh baccalaureate will be betrayed in favour of a qualification along the lines of the famous Curriculum 2000? Have you discussed this with your Liberal Democrat partners, and has the change of plans anything to do with the decision to withdraw Thursday's statement?

Pauline Jarman: A ydych yn ymwybodol o'r gred gyffredinol y caiff yr ymrwymiad yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' i gynnal peilot o'r fagloriaeth Gymreig ei fradychu o blaid cymhwyster tebyg i'r Cwricwlwm 2000 enwog? A drafodasoch hynny gyda'ch partneriaid Democratiaidd Rhyddfrydol, ac a oes gan y newid yn y cynlluniau unrhyw beth i'w wneud â'r penderfyniad i dynnu datganiad dydd Iau yn ôl?

The First Minister: No. I am afraid that that is a tissue of lies and a fabrication of your, or your advisers', imagination. I am sorry that you have made such a completely ridiculous statement. [PLAID CYMRU ASSEMBLY MEMBERS: 'Take it back.']

Prif Weinidog Cymru: Nagoes. Mae arnaf ofn fod hynny yn we o gelwyddau ac anwireddau sydd yn ffrwyth eich dychymyg chi, neu eich ymgynghorwyr. Mae'n ddrwg gennyf eich bod wedi gwneud datganiad mor eithriadol o ffôl. [AELODAU PLAID CYMRU O'R CYNULLIAD: 'Tynnwch hynny yn ôl.']

The Presiding Officer: Order. I am sure that the First Minister, freshly returned from Cwmhyfryd, would like to reconsider the words 'a tissue of lies'.

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf yn siŵr y byddai Prif Weinidog Cymru, sydd newydd ddychwelyd o Gwmhyfryd, yn hoffi ailsytyried y geiriau 'gwe o gelwyddau'.

The First Minister: I withdraw any implication of deliberate falsehood by the Member. However, I strongly dissent from the suggestion that Pauline made. There is not one whit of truth in it.

Prif Weinidog Cymru: Tynnaf yn ôl unrhyw ensyniad o anwiredd bwriadol ar ran yr Aelod. Fodd bynnag, anghytunaf yn llwyr â'r awgrym a wnaeth Pauline. Nid oes unrhyw ronyn o wirionedd ynddo.

Alun Pugh: A key theme of 'Putting Wales First' is sustainable transport. However, many pensioners in Colwyn Bay do not know that this Labour-led Assembly will make free bus travel available next year. Will you authorise a publicity campaign to ensure that pensioners take up this valuable travel concession?

The First Minister: It will have an enormous impact on freeing pensioners from being tied to their area by a lack of access to private transport. The lack of access to private transport is greater in Wales than in other parts of the UK, and is much higher among pensioners, either because they never learned to drive, or because of failing eyesight, or whatever. It is important that they are able to get about, meet friends, and go to social events. It is important that we publicise the access to the free bus passes this year, and the free local bus travel that will be available through those passes in some nine months' time.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): One key commitment in the partnership agreement was to capital spending on education. In light of that, will you take the opportunity this afternoon to clarify why there has been a capital underspend by some £56 million in the education budget this year, with a substantial tranche of that money seemingly being lost to the education budget forever? The Minister for Education and Lifelong Learning is reportedly saying—you may wish to slap her down or correct the impression that she has given—that some of this has been used to combat the foot and mouth disease outbreak and flood emergencies.

The First Minister: You are being a master of the misleading allegation, Nick. Across the final education and lifelong learning budget of £889 million there is an underspend of £56 million. Planned expenditure on education for 2001 is significantly above the equivalent figure for last year. When the system is managing such a rate of growth—improvements in buildings, extra resources throughout, and new innovative projects—

Alun Pugh: Un o themâu allweddol 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yw trafndiaeth gynaliadwy. Fodd bynnag, ni wŷr llawer o bensïynwyr ym Mae Colwyn y bydd y Cynulliad hwn dan arweiniad y blaid Lafur yn sicrhau y cânt deithio ar fws am ddim y flwyddyn nesaf. A awdurdodwch ymgyrch gyhoeddusrwydd i sicrhau y bydd pensïynwyr yn manteisio ar y cynnig gwerthfawr hwn?

Prif Weinidog Cymru: Caiff effaith fawr ar ryddhau pensïynwyr o fod yn gaeth i'w hardal oherwydd diffyg mynediad i drafnidiaeth breifat. Mae'r diffyg mynediad i drafnidiaeth breifat yn fwy yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU, ac yn llawer uwch ymysg pensïynwyr, naill ai oherwydd nad ydynt erioed wedi dysgu gyrru, neu am fod eu golwg yn dirywio, neu beth bynnag. Mae'n bwysig eu bod yn gallu mynd o gwmpas, cwrdd â ffrindiau a mynychu digwyddiadau cymdeithasol. Mae'n bwysig ein bod yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r mynediad i docynnau bws am ddim eleni, a theithio am ddim ar fysis lleol a fydd ar gael drwy'r tocynnau hynny ymhen tua naw mis.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Un ymrwymiad allweddol yn y cytundeb partneriaeth oedd i wariant cyfalaf ar addysg. Yng ngoleuni hynny, a gymerwch y cyfle y prynhawn yma i egluro pam y bu tanwariant cyfalaf o tua £56 miliwn yn y gyllideb addysg eleni, gyda chyfran sylweddol o'r arian hwnnw yn ymddangos ar goll i'r gyllideb addysg am byth yn ôl pob tebyg? Adroddir fod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi dweud—efallai y dymunwch ei rhoi yn ei lle neu gywiro'r argraff a roddwyd ganddi—y defnyddiwyd ychydig o hwn i wrthsefyll argyfyngau clwy'r traed a'r genau a'r llifogydd.

Prif Weinidog Cymru: Yr ydych yn feistr ar honiadau camarweiniol, Nick. Ar draws cyllideb derfynol addysg a dysgu gydol oes o £889 miliwn mae tanwariant o £56 miliwn. Mae'r cynllun gwariant ar addysg ar gyfer 2001 yn sylweddol uwch na'r ffigur cyfatebol y llynedd. Pan fo'r system yn rheoli cynnydd ar y fath raddfa—gwella adeiladau, adnoddau ychwanegol yn gyffredinol, a phrosiectau newydd arloesol—mae'n anochel y caiff

underspends will inevitably be carried over into future years. There is no truth in your suggestion that sums of money are, in some way, being lost to the Assembly, and I think that you know it.

Nick Bourne: I did not say that they were lost to the Assembly—you may wish to consult the record. I said that they were lost to the education budget, and the Minister for Education and Lifelong Learning is reportedly saying just that. It is half of the amount that should have gone towards capital expenditure this year, which is £56 million. You were right on that. I was not suggesting that it had been lost to the Assembly, but that it had been lost to the education budget. That is what the Minister for Education and Lifelong Learning is saying. Is she wrong?

The First Minister: You are wrong in saying that she said that.

tanwariannau eu cario drosodd i flynyddoedd dilynol. Nid oes gwirionedd yn eich awgrym fod symiau o arian, mewn rhyw fodd, yn cael eu colli i'r Cynulliad, a thybiaf y gwyddoch hynny.

Nick Bourne: Ni ddywedais y cawsant eu colli i'r Cynulliad—efallai yr hoffech edrych ar y cofnod. Dywedais y cânt eu colli i'r gyllideb addysg, ac adroddir fod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn dweud yn union hynny. Mae'n hanner y swm a ddylai fod wedi mynd tuag at wariant cyfalaf eleni, sef £56 miliwn. Yr oeddech yn gywir i ddweud hynny. Nid oeddwn yn awgrymu iddo gael ei golli o'r Cynulliad, ond iddo gael ei golli i'r gyllideb addysg. Dyna ddywed y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. A ydyw yn anghywir?

Prif Weinidog Cymru: Yr ydych chi yn anghywir drwy ddweud iddi ddweud hynny.

**'Rhoi Cymru'n Gyntaf' (Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru)
'Putting Wales First' (Better Public Services in Wales)**

Q2 Janet Davies: Will the First Minister make a statement explaining the way in which the delivery of policy proposals contained in 'Putting Wales First' are contributing towards better public services in Wales? (OAQ12007)

The First Minister: We have introduced several policies and measures aimed at improving public services for the people of Wales. These include several improvements to health services, such as free prescriptions and dental services for people under 25 years of age, frozen prescription charges for all, and a fall in the number of inpatients waiting for treatment. We have also introduced free school milk for all key stage 1 pupils, invested £300 million over three years to improve school buildings, and from September 2001, no child under seven years of age will be taught in a class of more than 30 pupils. In addition, we have introduced the local transport services grant to help fund community transport, and will shortly be bringing into force in Wales the Transport Act 2000, which contains measures to improve public transport, and therefore reduce traffic and pollution.

C2 Janet Davies: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn egluro sut mae rhoi'r cynigion polisi sydd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' ar waith yn cyfrannu tuag at wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ12007)

Prif Weinidog Cymru: Cyflwynasom nifer o bolisiâu a mesurau wedi eu hanelu at wella gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o welliannau i'r gwasanaethau iechyd, megis presgripsiynau a gwasanaethau deintyddol am ddim i bobl o dan 25 oed, rhewi costau presgripsiwn i bawb, a gostyngiad yn nifer y cleifion mewnol sydd yn aros am driniaeth. Cyflwynasom hefyd laeth ysgol am ddim i bob disgybl cyfnod allweddol 1, buddsoddwyd £300 miliwn dros dair blynedd i wella adeiladau ysgolion, ac o fis Medi 2001, nid addysgir yr un disgybl o dan 7 oed mewn dosbarth o dros 30 o ddisgyblion. Yn ogystal, cyflwynasom y grant gwasanaethau trafndiaeth lleol er mwyn helpu i ariannu trafndiaeth gymunedol, a chyn bo hir gweithredwn Ddeddf Trafndiaeth 2000 yng Nghymru, sydd yn cynnwys mesurau i wella trafndiaeth gyhoeddus, gan leihau traffig a llygredd.

Janet Davies: How much money has been committed, and what proportion of the total does that money represent?

The First Minister: I will have to write to you on that point.

Kirsty Williams: 'Putting Wales First' included a commitment to establishing a rural schools policy to ensure that children in rural areas receive their educational entitlement in schools close to their homes. When do you expect your administration to produce the rural schools policy?

The First Minister: I discussed that matter with Jane Davidson a fortnight ago, and it will be available soon.

David Davies: Do you agree that an improved transport structure is an important part of 'Putting Wales First', and will you comment on the benefits of the Chancellor of the Exchequer's allocation of £4 million to the Welsh road haulage modernisation fund, and the difference that it will make to road haulage in Wales?

The First Minister: I am pleased to hear of any additional resources for transport in Wales, including the sum to which David refers.

Alun Pugh: Do you accept that rail privatisation has been a disaster in Wales, and that until the structure of Railtrack is radically modernised, there is no hope of infrastructure improvements?

The First Minister: Railtrack is in a sad condition at present. Everyone accepts that privatisation was to a large extent botched, but the problem is how to get out of that situation. What resources would you have to commit to take Railtrack back into public ownership, as many people across the political spectrum now believe should happen? Is there a better way of using that money? Is it better to access the money available in the private sector for rail modernisation in some other way? Those are matters that the Cabinet, and Sue Essex in particular, will be taking up with Stephen Byers, the new Secretary of State for

Janet Davies: Faint o arian a glustnodwyd, a pha gyfran o'r cyfanswm a gynrychiolir gan yr arian hwnnw?

Prif Weinidog Cymru: Bydd angen imi ysgrifennu atoch ar y pwynt hwnnw.

Kirsty Williams: Yr oedd 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu polisi ysgolion gwledig i sicrhau fod plant mewn ardaloedd gwledig yn derbyn eu hawl i addysg mewn ysgolion ger eu cartrefi. Pryd y disgwylwch i'ch gweinyddiaeth gynhyrchu'r polisi ysgolion gwledig?

Prif Weinidog Cymru: Trafodais y mater hwnnw â Jane Davidson bythefnos yn ôl, a bydd ar gael yn fuan.

David Davies: A gytunwch fod strwythur trafniadaeth well yn rhan bwysig o 'Rhoi Cymru'n Gyntaf', ac a wnaiff sylw ar fanteision dyraniad Canghellor y Trysorlys o £4 miliwn i gronfa moderneiddio cludiant ffyrdd Cymru, a'r gwahaniaeth a wnewch i gludiant ffyrdd yng Nghymru?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn falch o glywed am unrhyw adnoddau ychwanegol ar gyfer trafniadaeth yng Nghymru, gan gynnwys y swm y cyfeiria David ato.

Alun Pugh: A dderbyniwch y bu preifateiddio'r rheilffyrdd yn drychineb yng Nghymru, a hyd nes y caiff strwythur Railtrack ei foderneiddio'n llwyr, nad oes gobaith o wella'r seilwaith?

Prif Weinidog Cymru: Mae Railtrack mewn cyflwr truenus ar hyn o bryd. Derbynia pawb y bu preifateiddio i raddau helaeth yn gawl, ond y broblem yw sut i ddod allan o'r sefyllfa honno. Pa adnoddau fyddai angen ichi eu hymrwymo i ail-wladoli Railtrack, fel y cred nifer o bobl ar draws y sbectrum gwleidyddol y dylid digwydd? A oes ffordd well o ddefnyddio'r arian hwnnw? A fyddai'n well defnyddio'r arian sydd yn y sector preifat i foderneiddio rheilffyrdd mewn ffordd arall? Mae'r rheini'n faterion y bydd y Cabinet, a Sue Essex yn arbennig, yn eu codi gyda Stephen Byers, yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Drafniadaeth,

Transport, Local Government and the Regions. Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Un peth sydd yn gyffredin rhwng y pleidiau yn y Cynulliad yw'r awydd i weld gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyllido'n ddigonol. O ystyried yr anghenion, a chyflwr truenus rhai o'n hysgolion a'n hysbytai yng Nghymru, mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i sicrhau y caiff arian ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae cwestiwn wedi'i ofyn eisoes ynglŷn â'r £56 miliwn sydd wedi ei danwario yn y gyllideb addysg. Yr ydym wedi clywed yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod tanwariant o £55 miliwn yn y gyllideb iechyd, ac mae tanwariant o £54 miliwn yng nghyllideb yr adran economaidd, sef bron i chwarter cyllideb yr adran honno. Sut y gallwch chi gyfiawnhau tanwariant eleni o £165 miliwn mewn tair adran yn unig?

Prif Weinidog Cymru: Mae tanwariant yn llawer llai o bwnc llosg yn awr na'r hyn a fu yn y gorffennol, gan na chaiff tanwariant ei ddychwelyd i'r Trysorlys bellach. Caiff yr arian ei gadw o fewn ein hadnoddau ni ar gyfer blynyddoedd i ddod. Gallwn wario eleni'r arian na lwyddom i'w wario y llynedd. Felly, nid yw'n gymaint o bwnc llosg erbyn hyn. Wrth geisio cadw at gyllidebau, mae'n drueni nad ydych yn gwario'r arian yn y flwyddyn berthnasol, ond nid yw hynny yn bosibl ar bob achlysur. Wrth geisio adeiladu cronfa gyfalaf er mwyn buddsoddi mewn ysgolion, er enghraifft, yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol. Nid y Cynulliad sydd yn gyfrifol am fuddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion yn uniongyrchol. Nid yw hynny'n golygu fy mod yn gweld bai ar lywodraeth leol, ond yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â hi. Bydd yr adnoddau yr oeddem yn credu y byddent yn cael eu gwario eleni yn cael eu gwario y flwyddyn nesaf.

2:10 p.m.

Ieuan Wyn Jones: A dderbyniwch, os ydych yn tanwario mor sylweddol mewn cymaint o adrannau bob blwyddyn, y bydd hynny'n tansilio eich achos y flwyddyn ganlynol i ofyn i'r Trysorlys am fwy o arian ar gyfer

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): One thing that unites all parties in the Assembly is the desire to see public services adequately funded. Given the needs, and the sorry state of some of our schools and hospitals in Wales, we all have a responsibility to ensure that money is spent in the most effective way. A question has already been asked about the £56 million underspend in the education budget. We have heard in the Health and Social Services Committee that there is an underspend of £55 million in the health budget, and an underspend of £54 million in the economic department's budget, which is nearly a quarter of its budget. How can you justify this year's underspend of £165 million in three departments alone?

The First Minister: Underspending is much less of a moot point these days than previously, because underspend is no longer returned to the Treasury. The money is kept within our resources for use in future years. We can spend this year money that we failed to spend last year. Therefore, it is no longer such a moot point. In trying to keep to budgets, it is a pity that you are unable to spend the money in the relevant year, but that is not always possible. In trying to build up a capital fund for investment in schools, for example, we work with partners in local government. The Assembly is not directly responsible for capital investment in schools. That does not mean that I blame local government, but we work in partnership with it. The resources that we thought would be spent this year will be spent next year.

Ieuan Wyn Jones: Do you accept that if you underspend so substantially in so many departments every year, that will undermine your case the following year when you ask the Treasury for more money for public

gwasanaethau cyhoeddus? Y ddadl sydd yn cael ei rhoi yn eich erbyn chi fel Llywodraeth, yw eich bod yn tanwario'n fwriadol er mwyn creu cronfa i ddiwallu anghenion argyfyngau megis argyfwng clwy'r traed a'r genau, y diswyddiadau yn Corus a'r llifogydd y llynedd. A wnewch chi addo heddiw y bydd y tanwario yn y tair adran honno'n cael ei drosglwyddo i'r un adrannau y flwyddyn nesaf?

Prif Weinidog Cymru: Mae'n fater i Edwina, fel y Gweinidog sydd yn gyfrifol am arian, i wneud penderfyniadau o'r math hwnnw. Byddai eich honiad, Ieuan, ein bod yn tanwario ac, felly, yn gwanhau'r ddadl y gallem ei chyflwyno i'r Trysorlys am fwy o adnoddau, ond o bwys pe baem yn tanwario tra nad oedd adrannau eraill o'r Llywodraeth yn Llundain yn gwneud yr un peth. Fodd bynnag, mae ganddynt yn union yr un broblem â ni. Wrth geiso adeiladu rhaglen o fuddsoddi mewn cyfalaf cymdeithasol, yr ydym wedi darganfod—ac mae'r adrannau cyfatebol yn Llundain wedi darganfod yn union yr un peth—ei bod yn anodd cyflymu'r broses wario. Felly, nid yw'n gwanhau unrhyw ddadl y byddem yn ei chyflwyno i'r Trysorlys am ragor o adnoddau.

The Presiding Officer: Question 3 has been withdrawn.

services? The accusation made against you as a Government is that you underspend intentionally in order to create a fund to meet the costs of crises such as the foot and mouth crisis, the redundancies at Corus and the floods last year. Will you give an assurance today that the underspend in those three departments will be transferred to the same departments next year?

The First Minister: It is for Edwina, as the Minister responsible for finance, to take such decisions. Your allegation, Ieuan, that we are underspending and, therefore, weakening our case for more resources from the Treasury, would only have weight if we were underspending, while other Government departments in London were not. However, they have exactly the same problem as us. In trying to build up a programme of investment in social capital, we have found—and the corresponding departments in London have found exactly the same thing—that it is difficult to speed up the spending process. Therefore, it does not weaken any argument that we would present to the Treasury for more resources.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

Lleihau Nifer y Llysoedd Sirol yng Nghymru Reducing County Courts in Wales

Q4 Alison Halford: What discussions has the First Minister had with the UK Government on the issue of reducing county courts in Wales? (OAQ11999)

C4 Alison Halford: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch lleihau nifer y llysoedd sirol yng Nghymru? (OAQ11999)

The First Minister: The Assembly is being consulted on the Court Service's consultation document on modernising the civil courts and we are formulating a response. The Court Service is part of the Lord Chancellor's Department and is not a devolved matter, however, it is consulting us because of the impact on public services in Wales.

Prif Weinidog Cymru: Ymgynghorir â'r Cynulliad ar ddogfen ymgynghorol y Gwasanaeth Llys ar foderneiddio'r llysoedd sifil ac yr ydym yn ffurfio ymateb. Mae'r Gwasanaeth Llys yn rhan o adran yr Arglwydd Ganghellor ac nid yw'n fater datganoledig, fodd bynnag, mae'n ymgynghori â ni oherwydd yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Alison Halford: I understand that the plan is to reduce the number of courts from 23 to 19 over the next 18 months. Therefore, are you considering any action to ensure that the

Alison Halford: Deallaf mai'r cynllun yw lleihau nifer y llysoedd o 23 i 19 dros y 18 mis nesaf. Felly, a ydych yn ystyried unrhyw weithgaredd i sicrhau na fydd angen i

victims of crime, witnesses and their families, are not burdened by travel concerns at a distressing time in their lives? Are you content that the hearing centres offer an appropriate and effective replacement in our increasingly litigious society?

The First Minister: It is important, in terms of access to justice and value for money, that the Court Service should consider whether it is spending money correctly. In future it will offer its customers the choice of communicating via telephone, e-mail, internet or electronic data interchange, rather than exclusively face to face. We are responding to the consultation document and have been given additional time in which to do so. You made a crucial point about witnesses attending court. One thing that destroys faith in the justice system, is when witnesses, who may be going through incredible personal trauma, are messed about. They could even be in fear of revenge attacks from the people that they may help to put inside. I would find regrettable anything that would mess witnesses about when they are going through such trauma. That would undermine the entire principle of justice. There are societies in the world where witnesses simply do not turn up at court for fear of being taken out of the system.

Rhodri Glyn Thomas: Wrth ateb cwestiwn 1, dywedasoch nad oes gan bobl yng Nghymru yr un mynediad i gludiant â phobl yn Lloegr. A dderbyniwch, yng nghyd-destun cau llysoedd sirol a llysoedd ynadon, fod hawl dynol sylfaenol gan ddiffnyddion hefyd i gael mynediad i lysoedd? A wnewch chi geisio diogelu hynny yn eich trafodaethau â'r adran berthnasol yn San Steffan?

Prif Weinidog Cymru: Dyna'r egwyddor wrth gwrs. Fodd bynnag, ni allwch wadu hawl y Gwasanaeth Llys i archwilio'i waith ac i ystyried a yw'r llysoedd barn, y mae wedi'u hetifeddu gan gyn-lywodraethau a gwasanaethau, wedi'u lleoli yn y lleoedd iawn.

William Graham: Will you redouble your efforts in respect of local justice following your remarks today? You will know that the further people have to travel to courts, the

ddioddefwyr troseddau, tystion na'u teuluoedd bryderu am drefniadau teithio ar adeg ofidus yn eu bywydau? A ydych yn fodlon fod y canolfannau gwranddo yn cynnig dewis amgen priodol ac effeithiol yn ein cymdeithas gynyddol gyfreithgar?

Prif Weinidog Cymru: Mae'n bwysig, yn nhermau mynediad i gyfiawnder a gwerth am arian, fod y Gwasanaeth Llys yn ystyried a yw'n gwario arian yn gywir. Yn y dyfodol, bydd yn cynnig dewis i'w gwsmeriaid i gysylltu dros y ffôn, drwy e-bost, y rhyngwyd neu gyfnewid data electronig, yn hytrach na wyneb yn wyneb yn unig. Yr ydym yn ymateb i'r ddogfen ymgynghorol a chafwyd mwy o amser i wneud hynny. Gwnaethoch bwynt pwysig am dystion yn mynychu'r llys. Un peth sydd yn dinistrio ffydd yn y system gyfiawnder yw'r driniaeth wael a gaiff tystion pan fyddant o bosibl yn dioddef trawma personol anhygoel. Gallent hyd yn oed fod yn poeni am ymosodiadau dialgar gan y bobl y gallant gynorthwyo i'w carcharu. Byddai'n resyn gennyf bod yn achosi i dystion gael eu trin yn wael pan fyddant yn dioddef trawma o'r fath. Byddai hynny yn tanseilio holl egwyddor cyfiawnder. Mae cymdeithasau yn y byd lle na fydd tystion yn dod i'r llys oherwydd eu bod yn ofni cael eu tynnu allan o'r system.

Rhodri Glyn Thomas: In response to question 1, you mentioned that people in Wales do not have the same access to transport as those in England. Do you accept, in the context of closing county courts and magistrates' courts, that defendants also have a fundamental human right of access to courts? Will you try to safeguard that in your discussions with the relevant department in Westminster?

The First Minister: That is the principle, of course. However, you cannot deny the Court Service the right to examine its work and to consider whether the courts, which it has inherited from previous governments and services, are in the right locations.

William Graham: A ddwysewch eich ymdrechion parthed cyfiawnder lleol yn sgîl eich sylwadau heddiw? Gwyddoch fod pobl yn llai tebygol o ymddangos yn y llys os

less likely they are to attend. Will you ensure that your representation will be listened to and acted upon?

The First Minister: I can give no guarantee that Lord Irvine will do exactly as I instruct him on behalf of the Assembly. Nevertheless, we will make strong pleas that some special aspects of Welsh social, geographical, cultural and linguistic circumstances are taken into account when they make their final recommendations.

dynt yn gorfod teithio ymhellach i'w gyrraedd. A sicrhewch y gwrandewir ar eich sylwadau ac y gweithredir arnynt?

Prif Weinidog Cymru: Ni allaf warantu y gwnaiff yr Arglwydd Irvine yn union fel y gorchmynnaf iddo ar ran y Cynulliad. Fodd bynnag, byddwn yn pwysu yn drwm y dylid ystyried rhai agweddau arbennig ar amgylchiadau cymdeithasol, daearyddol, diwylliannol ac ieithyddol Cymru pan gyflwynant eu hargymhellion terfynol.

Ymuno ag Arian Sengl Ewrop (Goblygiadau i Gymru) Joining the European Single Currency (Implications for Wales)

Q5 Peter Black: What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales on the implications for Wales of the UK joining the European single currency? (OAQ11985)

The First Minister: I meet regularly with the Secretary of State for Wales and other members of the new Cabinet to discuss a variety of topics. That includes the implications for Wales of a decision by the UK Government to join the European single currency by offering the people of Britain that choice in a referendum at the right time.

Peter Black: Given the importance of the single currency to Wales, what role will the Assembly administration take in any referendum campaign?

The First Minister: This Assembly, to some extent, must decide whether it would want to take a collective view and make use of whatever significance that view has in a referendum campaign. Determining when the choice will be put to the British people is not a devolved matter, but that would not debar us from having a debate. I would have thought that we would want a debate at that time. However, it is not for me to determine what is in Wales's best interest on this issue because there might be a special view of what that best interest is. It might not be completely the same as what is in the interest of the average UK person.

C5 Peter Black: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y goblygiadau i Gymru pe bai'r DU yn ymuno ag arian sengl Ewrop? (OAQ11985)

Prif Weinidog Cymru: Cyfarfyddaf yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac aelodau eraill o'r Cabinet newydd i drafod amrywiaeth o bynciau. Mae hynny'n cynnwys y goblygiadau i Gymru yn sgîl penderfyniad gan Llywodraeth y DU i ymuno ag arian sengl Ewrop drwy gynnig y dewis hwnnw i bobl Prydain mewn refferendwm ar yr adeg iawn.

Peter Black: O gofio pwysigrwydd yr arian sengl i Gymru, pa rôl a gymer gweinyddiaeth y Cynulliad mewn unrhyw ymgyrch refferendwm?

Prif Weinidog Cymru: Rhaid i'r Cynulliad hwn, i ryw raddau, benderfynu pa un a fyddai am gymryd safbwynt torfol a gwneud defnydd o ba arwyddocâd bynnag sydd i'r safbwynt hwnnw mewn ymgyrch refferendwm ai peidio. Nid mater datganoledig yw penderfynu pryd y rhoddir y dewis i bobl Prydain, ond ni fyddai hynny yn ein rhwystro rhag cael dadl yn ei gylch. Byddwn wedi meddwl y byddem am gael dadl bryd hynny. Fodd bynnag, nid mater i mi yw penderfynu beth sydd orau i Gymru yn y mater hwn gan y gallai fod barn arbennig am yr hyn sydd orau. Efallai nad yw'n union yr un peth â'r hyn sydd orau i'r person cyffredin yn y DU.

Dafydd Wigley: Yr wyf yn falch o glywed yr

Dafydd Wigley: I am pleased to hear that

ymateb hwnnw, sydd yn tanlinellu pwysigrwydd cyfundrefn o ariannu digonol i Gymru o'r Undeb Ewropeaidd i ddigolledu am unrhyw bolisi sydd o reidrwydd yn berthnasol i'r holl undeb. Mae angen polisi rhanbarthol cryf i wrthsefyll unrhyw duedd i dynnu tuag at y canol. A wnewch chi roi sicrwydd y byddwch yn dadlau gyda'r Gweinidogion yn Llundain—ac os oes angen, ym Mrwsel—yr achos dros sicrhau parhad o bolisi rhanbarthol cryf ar gyfer Cymru yn y cyfnod sydd yn dilyn ymuno â'r ewro?

Prif Weinidog Cymru: Pe byddai niwed yn dod i Gymru ac ardaloedd ymylol eraill yn ystyr wleidyddol y Deyrnas Unedig yn sgîl ymuno â'r arian sengl yn Ewrop, derbynïaf yr egwyddor y gallem ddadlau efallai bod yn rhaid cael adnoddau ychwanegol er mwyn goresgyn problemau'r effeithiau niweddiol hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn dweud y gallem ddadlau ar hyn o bryd y byddai ymuno ag arian sengl Ewrop yn niweddiol i Gymru.

Jonathan Morgan: Bearing in mind the constitutional and economic implications for the United Kingdom of joining a single European currency, will the Government of Wales give a guarantee to the National Assembly that we will have a debate on this subject before the referendum is held?

The First Minister: That is a matter for the Business Committee. However, it would be my inclination to have a debate.

Gwaith a Wnaethpwyd Dramor gan y Cabinet Functions Undertaken by Cabinet Colleagues Abroad

Q6 Helen Mary Jones: Will the First Minister make a statement on functions Cabinet colleagues have undertaken abroad recently? (OAQ11990)

The First Minister: I trust that you approve of the visit to Patagonia—Y Wladfa. I shall refer to it shortly, with your permission, Llywydd. Jane Hutt attended the World Health Assembly in Geneva on 14 and 15 May. Jane Davidson attended the Education and Youth Council of Ministers and other meetings in Brussels on 28 May. Andrew Davies attended the E-mobility 2001

response, which underlines the importance of an adequate funding system for Wales from the European Union to compensate for any policy, which of necessity is relevant to the whole union. A strong regional policy is needed to withstand any tendency to draw towards the centre. Will you give an assurance that you will argue the case for continuing a strong regional policy for Wales in the period following entry into the euro with Ministers in London, and, if need be, in Brussels?

The First Minister: If there was any detriment to Wales and other peripheral areas in the political sense of the United Kingdom as a result of entering into the European single currency, I accept the principle that we could argue perhaps that additional resources would be needed to overcome the problems of those detrimental effects. However, I am not saying that we could argue at present that joining the single European currency would be detrimental to Wales.

Jonathan Morgan: O gofio'r goblygiadau cyfansoddiadol ac economaidd i'r Deyrnas Unedig o ymuno ag arian sengl Ewrop, a rydd Llywodraeth Cymru sicrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol y cawn ddadl ar y pwnc hwn cyn i'r refferendwm gael ei gynnal?

Prif Weinidog Cymru: Mater i'r Pwyllgor Busnes yw hwnnw. Fodd bynnag, fy nhuedd i fyddai cael dadl.

C6 Helen Mary Jones: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch pa waith a wnaethpwyd dramor yn ddiweddar gan ei gyd-Weinidogion yn y Cabinet? (OAQ11990)

Prif Weinidog Cymru: Hyderaf eich bod yn cymeradwyo'r ymweliad â Phatagonia—Y Wladfa. Cyfeirïaf ato cyn hir, gyda'ch caniatâd, Lywydd. Mynychodd Jane Hutt Gynulliad Iechyd y Byd yng Ngenefa ar 14 a 15 Mai. Mynychodd Jane Davidson Gyngor Addysg ac Ieuencid y Gweinidogion a chyfarfodydd eraill ym Mrwsel ar 28 Mai. Mynychodd Andrew Davies gynhadledd E-

conference in Gothenburg. Michael German attended meetings of Wales Trade International, leading the trade mission in Canada and attended the European Cohesion Forum with Christine Gwyther and Phil Williams in Brussels on 21 and 22 May. I understand that Jenny Randerson will attend the European Council of Culture Ministers meeting at the end of this month with the new Secretary of State for Culture, Media and Sport, Tessa Jowell. There has been an unusually high number of visits by Welsh Assembly Ministers to Brussels and other locations recently. During the Westminster general election, UK Government Ministers were not available and therefore invitations that would have gone to them were passed on with unusual generosity—

Edwina Hart: Like a second-hand Rose.

The First Minister:—to the Ministers of the Governments of Wales, Scotland and, probably, Northern Ireland.

2:20 p.m.

Helen Mary Jones: It is nice to know that there are some advantages sometimes to being—as the Minister for Finance, Local Government and Communities just said—'a second-hand Rose'. In the interest of openness, will you publish the costs involved in Ministers undertaking such functions abroad? You stressed that those functions are valuable. Will you also publish the routes that they took, and details of activities other than the public duties undertaken by Ministers when they were abroad representing the Government of Wales?

The First Minister: There is a hint of an allegation behind the phrasing of that question, delicate though it was. I must compliment you on that. As regards the costs, that is a perfectly reasonable question. I am not sure that I can ask Ministers to account for where they were every hour when they were not in meetings. The schedules are heavy, but they do not account for every hour of the day when one is not in Cardiff.

symudedd 2001 yn Gothenburg. Mynychodd Michael German gyfarfodydd Masnach Cymru Rhyngwladol, gan arwain y genhadaeth fasnachol yng Nghnada, a mynychodd Fforwm Cydlyniant Ewrop gyda Christine Gwyther a Phil Williams ym Mrwsel ar 21 a 22 Mai. Deallaf y bydd Jenny Randerson yn mynychu cyfarfod Cyngor Gweinidogion Diwylliant Ewrop ddiwedd y mis hwn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Tessa Jowell. Bu nifer anarferol o uchel o ymweliadau gan Weinidogion Cynulliad Cymru â Brwsel a lleoliadau eraill yn ddiweddar. Yn ystod etholiad cyffredinol San Steffan, nid oedd Gweinidogion Llywodraeth y DU ar gael ac felly pasiwyd gwahoddiadau a fyddai wedi mynd iddynt hwy ymlaen â haelioni anarferol—

Edwina Hart: Fel Rhosyn ail-law.

Prif Weinidog Cymru:—i Weinidogion Llywodraethau Cymru, yr Alban a, fwy na thebyg, Gogledd Iwerddon.

Helen Mary Jones: Mae'n braf gwybod bod rhai manteision weithiau i fod—fel y mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Lleol a Chymunedau newydd ei ddweud—yn 'Rhosyn ail-law'. Er budd ymagwedd agored, a gyhoeddych yr hyn a gostiodd i Weinidogion ymgymryd â gwaith o'r fath dramor? Pwysleisiasoch fod y gwaith hwnnw yn werthfawr. A gyhoeddych hefyd eu llwybrau teithio, a manylion gweithgareddau ar wahân i'r dyletswyddau cyhoeddus yr ymgwymerwyd â hwy gan y Gweinidogion tra yr oeddent dramor yn cynrychioli Llywodraeth Cymru?

Prif Weinidog Cymru: Mae awgrym o gyhuddiad y tu ôl i eiriad y cwestiwn hwnnw, er mor gynnil. Rhaid imi eich canmol am hynny. O ran y costau, mae hwnnw'n gwestiwn cwbl resymol. Ni wn a allaf ofyn i'r Gweinidogion roi cyfrif am ble yr oeddent bob awr pan nad oeddent mewn cyfarfodydd. Mae'r amserlenni yn drwm, ond ni chwmpasant bob awr o'r dydd pan nad yw dyn yng Nghaerdydd.

David Melding: During a happy year's study at the College of William and Mary in Virginia, USA, in the mid 1980s, I was asked by an intelligent American whether Wales was a democracy. I do not think that that was a criticism of how we were governed then, pre-devolution, but do you not agree that it is important that we raise Wales's image abroad, and ensure that people get beyond stereotypes? I fear that a recent article in the *National Geographic* magazine, for example, played on an old view of Wales that we ought to dispel.

The First Minister: I am not familiar with the College of William and Mary—or the college of Helen and Mary as it will no doubt be shortly renamed—but I am sure that it is an outstandingly good academic institution. It is true that we suffer from what you might call a semi-invisible image abroad, not in Argentina, but in many parts of the world where they do not know what, or where, Wales is. I am not aware of the problem with the article in the *National Geographic* magazine; perhaps you will give me a copy of the offending item.

The Presiding Officer: Question 7 has been withdrawn.

David Melding: Yn ystod blwyddyn hapus o astudio yng Ngholeg William and Mary yn Virginia, UDA, ganol yr 1980au, gofynnwyd imi gan Americanwr deallus a oedd Cymru yn ddemocratiaeth ai peidio. Ni chredaf mai beirniadaeth oedd hynny o'r ffordd y cawsom ein llywodraethu bryd hynny, cyn datganoli, ond oni chytunwch ei bod yn bwysig inni godi delwedd Cymru dramor, a sicrhau y gwêl pobl y tu hwnt i stereoteipiau? Mae arnaf ofn i erthygl ddiweddar yng nghylchgrawn y *National Geographic*, er enghraifft, chwarae ar hen ddelwedd o Gymru y dylem ei chwalu.

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf yn gyfarwydd â Choleg William and Mary—na choleg Helen and Mary fel y caiff ei ailnwi'n fuan yn ddi-os—ond yr wyf yn siŵr ei fod yn sefydliad academaidd neilltuol o dda. Mae'n wir y dioddefwn o'r hyn y gallech ei alw'n ddelwedd lled anweledig dramor, nid yn yr Ariannin, ond mewn llawer o rannau o'r byd lle na wyddant beth yw Cymru, na ble y mae. Nid wyf yn ymwybodol o'r broblem gyda'r erthygl yng nghylchgrawn y *National Geographic*; efallai y rhoddwch gopi imi o'r eitem dramgwyddus.

Y Llywydd: Tynnwyd Cwestiwn 7 yn ôl.

'Rhoi Cymru'n Gyntaf' 'Putting Wales First'

C8 Elin Jones: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn amlinellu pa gynigion yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' a gaiff eu rhoi ar waith yn ystod y chwe mis nesaf? (OAQ1194)

Prif Weinidog Cymru: O fis Medi nesaf bydd pob plentyn ysgol o dan 7 oed mewn dosbarth o lai na 30 o ddisgyblion. Caiff Deddf Trafnidiaeth 2000 ei chyflawni cyn hir. Bydd yn cynnwys mesurau i wella gwasanaethau trafndiaeth cyhoeddus a lleihau trafndiaeth ac, felly, y problemau a'r gwastraff a ddaw o ormod o drafndiaeth. Gobeithiwn y cyflawnir y Ddeddf honno cyn hir.

Elin Jones: Yn dilyn eich ateb i Pauline Jarman ynghynt, a gadarnhewch bod y

Q8 Elin Jones: Will the First Minister make a statement outlining which of the proposals contained in 'Putting Wales First' will be delivered during the next six months? (OAQ1194)

The First Minister: From next September every pupil under 7 will be in a class of fewer than 30 pupils. The Transport Act 2000 will be implemented soon. It will contain measures to improve public transport services and reduce traffic and, therefore, the problems and waste that come from excessive transportation. We hope that that Act will be implemented soon.

Elin Jones: Following your earlier answer to Pauline Jarman, will you confirm that the

Cabinet wedi ymrwymo i gyflwyno cynllun peilot ar gyfer y fagloriaeth Gymreig yn unol â'r cytundeb partneriaeth? A wnewch ddatganiad am hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol agos?

Prif Weinidog Cymru: Rhoddaf yr ymrwymiad hwnnw yn llwyr. Bydd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn gwneud datganiad yn y Cynulliad o fewn pythefnos.

Mick Bates: I am sure that you overlooked the Liberal Democrat policy of an independent appeals panel for farmers, which will be implemented in October.

Peter Law: The lunatics are running the madhouse here. [*Laughter.*]

Mick Bates: Does the First Minister agree that the people of Wales want to see the Assembly work and that the partnership Government is the only way of making it work?

The First Minister: That is a tough question, Mick. The people of Wales expect us to achieve our objectives and to complete them by May 2003. They expect to see this Government achieve things and then ensure that people who theoretically have the rights—as in the case of the free bus passes and bus travel—know that they have those rights, and make use of them, so that they can see that the Assembly has made a difference to their lives.

Peter Rogers: I am sure that you recognise the economic impact of foot and mouth disease on the farming industry. It is important that farmers can now access the European grants to which they are entitled. Are you aware that Farming Connect, which will administer the farm improvement and farm enterprise grants and which should have been up and running by last October, is still not operational and may not be operational until later this year? How can farmers access these grants? Will there be any penalties for money that was not claimed during the first two years due to the failure to get the system up and running?

Cabinet is committed to introducing a pilot scheme for the Welsh Baccalaureate in accordance with the partnership agreement? Will you make a statement on this to the National Assembly in the near future?

The First Minister: I give that firm assurance. Jane Davidson, the Minister for Education and Lifelong Learning, will make a statement in the Assembly within a fortnight.

Mick Bates: Yr wyf yn siŵr ichi anghofio am bolisi'r Democratiaid Rhyddfrydol o banel apeliadau annibynnol i ffermwyr, a weithredir fis Hydref.

Peter Law: Mae'r gwallgofion yn rhedeg y seilam yma. [*Chwerthin.*]

Mick Bates: A gytuna Prif Weinidog Cymru fod pobl Cymru am weld y Cynulliad yn gweithio ac mai'r Llywodraeth bartneriaeth yw'r unig ffordd o wneud iddo weithio?

Prif Weinidog Cymru: Mae hwnnw'n gwestiwn anodd, Mick. Mae pobl Cymru yn disgwyl inni gyflawni ein hamcanion a'u cwblhau erbyn Mai 2003. Disgwylant weld y Llywodraeth hon yn cyflawni pethau ac yna'n sicrhau bod y bobl sydd â'r hawliau yn ddamcaniaethol—fel yn achos y tocynnau bws a theithio ar fws am ddim—yn gwybod bod ganddynt yr hawliau hynny, ac yn eu defnyddio, fel y gallant weld bod y Cynulliad wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Peter Rogers: Yr wyf yn siŵr eich bod yn cydnabod effaith economaidd clwy'r traed a'r genau ar y diwydiant ffermio. Mae'n bwysig y caiff ffermwyr fynediad i'r grantiau Ewropeaidd y mae ganddynt hawl iddynt. A ydych yn ymwybodol nad yw Cyswllt Ffermio, a fydd yn gweinyddu'r grantiau gwella ffermydd a mentrau ffermydd y bwriadwyd iddo fod ar waith fis Hydref diwethaf, yn weithredol o hyd ac efallai na fydd yn weithredol tan yn ddiweddarach eleni? Sut y gall ffermwyr gael gafael ar y grantiau hyn? A fydd unrhyw gosbau am arian na wnaethpwyd cais amdano yn ystod y ddwy flynedd gyntaf oherwydd methiant i roi'r system ar waith?

The First Minister: I understand that Farming Connect will be up and running within a couple of months. As Peter's second point on penalties is quite technical, I will write to him. It would be wrong of me to give an answer now without authority, as that could mislead people.

Prif Weinidog Cymru: Deallaf y bydd Cyswllt Ffermio ar waith ymhen rhyw ddau fis. Gan fod ail bwynt Peter ar gosbau yn eithaf technegol, ysgrifennaf ato. Ni fyddai'n briodol i mi roi ateb yn awr heb awdurdod, gan y gallai hynny gamarwain pobl.

Proses Ymgynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu European Commission Consultation on Governance

C9 Dafydd Wigley: Pa rôl y mae Prif Weinidog Cymru yn ei ragweld ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod proses ymgynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar lywodraethu? (OAQ1208)

Q9 Dafydd Wigley: What role does the First Minister envisage for the National Assembly during the European Commission consultation process on governance? (OAQ1208)

Prif Weinidog Cymru: Ystyriodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd bapur ar y meddylfryd diweddaraf ynghylch ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar lywodraethu yn ei gyfarfod diwethaf ar 23 Mai. Caiff Papur Gwyn ei gyhoeddi fis Gorffennaf, ar ddechrau llywyddiaeth Gwlad Belg o'r CE. Mae llysgennad Gwlad Belg yn y DU wedi cytuno i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 28 Mehefin, pan gaiff aelodau'r Pwyllgor gyfle i'w holi ynghylch safbwynt llywyddiaeth Gwlad Belg, sydd yn dechrau ar 1 Gorffennaf. Wedi i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi, bydd y Pwyllgor am archwilio'r testun yn fanwl ac ystyried ei ymateb.

The First Minister: The Committee on European Affairs considered a paper on the latest thinking about the European Commission's consultation on governance at its last meeting on 23 May. A White Paper will be published in July, at the start of the Belgian presidency of the EC. The Belgian ambassador to the UK has agreed to attend the next meeting of the Committee on European Affairs on 28 June, when Committee members will have an opportunity to question him on the stance of the Belgian presidency, which begins on 1 July. Following the publication of the White Paper, the Committee will wish to scrutinise the text in detail and consider its response.

Dafydd Wigley: A dderbyniwch fod cyfle pwysig i Gymru a'r Cynulliad ddylanwadu ar y broses hon, oherwydd bod yr adolygiad yn archwilio'r berthynas rhwng pwerau sefydliadau Ewropeaidd a phwerau rhanbarthol a lleol o fewn y CE? A gawn sicrhwydd y cynhelir dadl yn y Siambr ar argymhellion y Llywodraeth, fel y gall y Cynulliad cyfan fynegi barn arnynt cyn i'r sylwadau gael eu cyflwyno i Frwsel?

Dafydd Wigley: Do you accept that there is an important opportunity for Wales and the Assembly to influence this process, as the review examines the relationship between the powers of European institutions and regional and local powers within the EC? May we have an assurance that a debate will be held in the Chamber on the Government's recommendations, so that the whole Assembly can express an opinion before the comments are presented to Brussels?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn fodlon i ddadl agored gael ei chynnal ar y pwnc hwn. Byddaf angen cefnogaeth eang ar draws y Cynulliad er mwyn dweud, wrth bwysio ar Brif Weinidog y DU ac ar lywodraethau rhanbarthol eraill, yng Nghatalunya, Baden-Württemberg ac ati, fy mod yn gwneud hynny ar ran Cymru ac ar ran y Cynulliad cyfan, neu ar ran y mwyafrif llethol o leiaf.

The First Minister: I am happy for an open debate to be held on this subject. I will need broad support across the Assembly in order to say, when pressing the Prime Minister and other regional governments, in Catalunya, Baden-Württemberg and so on, that I am speaking on behalf of Wales and the whole Assembly, or at least on behalf of the vast majority. Timing is important. We must aim

Mae'r amseriad yn bwysig. Rhaid inni anelu at y gynhadledd ryng-lywodraethol nesaf, a gynhelir yn ystod chwarter cyntaf 2004. Mae gennym ddigon o amser i ystyried y pwnc hwn yn drylwyr, i wneud cysylltiadau agos â rhanbarthau eraill ac i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU.

David Melding: Does the First Minister agree that the emergence of an European political system was the greatest achievement of the second half of the twentieth century, and that it stands in stark contrast to the events of the early twentieth century on our continent? Does he also agree that we must further strengthen European institutions by ensuring that they are informed by vigorous national parliaments and devolved institutions throughout Europe?

The First Minister: I concur with that. Following Ireland's rejection of the Nice Treaty in the referendum and the riots in Gothenburg, it has almost become easy—if slightly cynical—to say that Europe's institutions and leaders have lost contact with the people of Europe. Although there must be some truth in that, it is too easy to say. Hard work is required to remind people, as David's question does, that the main purpose of establishing an European political system was to ensure that the half century starting in 1950, when the Treaty of Paris was signed, would be much more peaceful than the previous 50 years. Its achievement cannot be questioned. However, since there has not been a western European war for a long time, people have forgotten that. The current situation in the Balkans shows that war has not completely left Europe. People must be reminded of the achievements of western Europe in keeping the continent free of war.

2:30 p.m.

Cyfrifoldebau'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg Responsibilities of the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language

C10 Owen John Thomas: A yw Prif Weinidog Cymru yn bwriadu newid cyfrifoldebau'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn y Cynulliad? (OAQ11988)

towards the next inter-governmental conference, which will be held during the first quarter of 2004. We have sufficient time to give thorough consideration to this issue, to develop close relationships with other regions and to influence the UK Government.

David Melding: A gytuna Prif Weinidog Cymru mai datblygu system wleidyddol Ewropeaidd oedd cyflawniad pennaf ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac y saif mewn gwrthgyferbyniad clir â digwyddiadau dechrau'r ugeinfed ganrif ar ein cyfandir? A gytuna hefyd bod yn rhaid inni gryfhau sefydliadau Ewropeaidd ymhellach drwy sicrhau bod seneddau cenedlaethol egnïol a sefydliadau datganoledig ledled Ewrop yn sail iddynt?

Prif Weinidog Cymru: Cytunaf â hynny. Ar ôl i Iwerddon wrthod Cytundeb Nice yn y refferendwm ac ar ôl y terfysgoedd yn Gothenburg, daeth yn hawdd bron—os nad fymryn yn sinigaidd—dweud bod sefydliadau ac arweinwyr Ewrop wedi colli cysylltiad â phobl Ewrop. Er bod rhywfaint o wirionedd mae'n rhaid, yn hynny, mae'n rhy hawdd i'w ddweud. Mae angen gwaith caled i atgoffa pobl, fel y gwna cwestiwn David, mai prif ddiben sefydlu system wleidyddol Ewropeaidd oedd sicrhau y byddai'r hanner canrif a ddechreuai yn 1950, pan arwyddwyd Cytundeb Paris, yn llawer mwy heddychlon na'r 50 mlynedd flaenorol. Ni ellir amau yr hyn a gyflawnodd. Fodd bynnag, gan na fu rhyfel yng ngorllewin Ewrop ers amser maith, mae pobl wedi anghofio hynny. Dengys y sefyllfa bresennol yng ngwledydd y Balcan nad yw rhyfel wedi gadael Ewrop yn llwyr. Rhaid atgoffa pobl o'r hyn a gyflawnwyd yng ngorllewin Ewrop o ran cadw'r cyfandir rhag rhyfel.

Q10 Owen John Thomas: Does the First Minister intend to change the responsibilities of the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language in the Assembly? (OAQ11988)

Prif Weinidog Cymru: Nid oes gennyf newidiadau eraill mewn golwg yn ychwanegol at y newid bach diweddar ynglŷn â rhoi cyfrifoldeb dros Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg.

Owen John Thomas: Mae Bwrdd Croeso Cymru, Cadw a'r Pwyllgor Diwylliant yn ymwneud â materion sydd yn gorgyffwrdd â'i gilydd ac sydd yn adlewyrchu agweddau hanfodol ar y genedl a'r wlad. A fydddech yn cytuno y byddai o fantais uno'r tri maes hwn o fewn cylch gorchwyl un Gweinidog?

Prif Weinidog Cymru: Wrth gwrs, ond mae'n rhaid gwahanu'r portffolios yn rhywle. Bob tro yr ydych yn rhannu dyletswyddau unrhyw aelod o'r Cabinet mewn unrhyw gyfundrefn—nid yn unig yng Nghymru ond ym Mhrydain Fawr hefyd—gallwch weld blerwch fan hyn a fan draw. Fodd bynnag, os ceisiwch newid y sefyllfa er mwyn datrys y blerwch hwnnw, yr ydych yn creu blerwch arall. Felly, ni allwch gael gwared ar bob blerwch. Mae'n rhaid ceisio cael cyn lleied ag y bo modd o flerwch.

The First Minister: I do not intend to make any other changes in addition to the recent minor change as regards giving the Minister for Culture, Sports and the Welsh Language responsibility for the National Botanic Garden of Wales.

Owen John Thomas: The Wales Tourist Board, Cadw and the Culture Committee are all involved in issues that overlap and reflect essential elements of the nation and the country. Do you agree that it would be advantageous to unite these three areas within the terms of reference of one Minister?

The First Minister: Of course, but one has to separate the portfolios somewhere. Every time you separate a Cabinet member's duties in any system—not only in Wales but also in Great Britain—you see confusion here and there. If you then change the situation to try to resolve that confusion, you create new confusion. You cannot rid yourself of all confusion. What you try to do is keep confusion to a minimum.

Materion Trawsbynciol (Polisiau'r Cynulliad) Cross-cutting Issues (Assembly Policies)

Q11 Janet Ryder: In the First Minister's capacity as policy development co-ordinator, how does he assess the Government of Wales's success in embedding cross-cutting issues throughout National Assembly policies? (OAQ11995)

The First Minister: We address cross-cutting themes by ensuring that our main themes are fully reflected in our work on Assembly schemes and supporting action plans. As regards my contribution, I chair the Cabinet sub-committees on sustainable development; Wales and the world and Corus, the first two of which deal with cross-cutting themes.

Janet Ryder: I will take that last point further and ask you to define more clearly your own role as policy co-ordinator on cross-cutting issues in each subject area. Are you aware that questions submitted to you on such cross-cutting issues tend to be side-tracked and sent on to the Minister

C11 Janet Ryder: Yn ei rôl fel cydlynnydd datblygu polisi, sut mae Prif Weinidog Cymru yn asesu llwyddiant Llywodraeth Cymru o ran gwneud materion trawsbynciol yn rhan annatod o bolisiau'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ11995)

Prif Weinidog Cymru: Ymdriniwn â themâu trawsbynciol drwy sicrhau yr adlewyrchir ein prif themâu yn llawn yn ein gwaith ar gynlluniau'r Cynulliad a chynlluniau gweithredu ategol. O ran fy nghyfraniad i, cadeirïaf is-bwyllgorau'r Cabinet ar ddatblygu cynaliadwy; Cymru a'r byd a Corus. Mae'r ddau gyntaf yn delio â themâu trawsbynciol.

Janet Ryder: Edrychaf ymhellach ar y pwynt diwethaf hwnnw gan ofyn ichi ddiffinio'n eglurach eich rôl eich hun fel cydlynnydd polisi ar faterion trawsbynciol ym mhob maes pwnc. A ydych yn ymwybodol bod cwestiynau a gyflwynir ichi ar faterion trawsbynciol o'r fath yn tueddu i gael eu

responsible for that subject?

The First Minister: I will look into that matter because I would be disappointed if it was true. However, there may be arguments about what constitutes a cross-cutting question. It is sad if that is the case. If you have specific points and would like to draw some recent examples to my attention, I will take up that matter. Apart from some small areas like science, I do not have sectoral responsibilities. Therefore, my role includes ensuring that cross-cutting themes are dealt with adequately. I regard it as my responsibility to tackle any issues that are in danger of falling between two stools.

William Graham: Does the progression of these cross-cutting issues relate to how you co-ordinated policies to address foot and mouth disease and the Corus situation?

The First Minister: I chair the sub-committee on Corus but not the sub-committee on foot and mouth disease because I consider that to be too heavily involved with one portfolio. However, the Corus issue is heavily involved with Mike German's and Jane Davidson's portfolios and that is why I chair the meetings. The Corus issue is also involved with other portfolios, such as Sue Essex's work. Foot and mouth disease is different, as it is strictly involved with rural affairs and that is why Carwyn Jones deals with that.

hosgoi a'u hanfon ymlaen at y Gweinidog sydd yn gyfrifol am y pwnc hwnnw?

Prif Weinidog Cymru: Ymchwiliad i'r mater hwnnw gan y byddwn yn siomedig pe bai'n wir. Fodd bynnag, efallai bod dadleuon ynghylch beth a olygir wrth gwestiwn trawsbynciol. Mae'n drist os yw hynny'n wir. Os oes gennych bwyntiau penodol ac yr hoffech ddod â rhai enghreifftiau diweddar i'm sylw, ymgymeraf â'r mater hwnnw. Ac eithrio rhai meysydd bach fel gwyddoniaeth, nid oes gennyf gyfrifoldebau sectoraidd. Felly, mae fy rôl yn cynnwys sicrhau yr ymdrinnir â themâu trawsbynciol yn ddigonol. Ystyriaf fod gennyf gyfrifoldeb i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd mewn perygl o syrthio rhwng dwy stôl.

William Graham: A yw datblygiad y materion trawsbynciol hyn yn ymwneud â sut y gwnaethoch gydgyssylltu polisiau i ymdrin â chlwy'r traed a'r genau a sefyllfa Corus?

Prif Weinidog Cymru: Cadeiriau yr is-bwyllgor ar Corus ond nid yr is-bwyllgor ar glwy'r traed a'r genau gan yr ystyriaf fod hynny'n ymwneud yn ormodol ag un portffolio. Fodd bynnag, mae mater Corus yn ymwneud yn agos â phortffolios Mike German a Jane Davidson a dyna pam y cadeiriau y cyfarfodydd. Mae mater Corus hefyd yn ymwneud â phortffolios eraill, fel gwaith Sue Essex. Mae clwy'r traed a'r genau yn wahanol, gan ei fod yn ymwneud â materion gwledig yn unig a dyna pam bod Carwyn Jones yn delio â hynny.

Hybu'r Gefnogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol Promoting Support for the National Assembly

Q12 Glyn Davies: What steps is the First Minister taking to promote support for the National Assembly in north, mid and west Wales? (OAQ12002)

The First Minister: I attend the North Wales Regional Committee as frequently as I can, roughly every other meeting. The other Regional Committees meet regularly to ensure that all Assembly policies are communicated and delivered efficiently throughout Wales. It is even more important that the views of people throughout Wales

C12 Glyn Davies: Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru yn eu cymryd i hybu'r gefnogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol yng ngogledd, canolbarth a gorllewin Cymru? (OAQ12002)

Prif Weinidog Cymru: Mynychaf Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd mor aml ag y gallaf, sef am yn ail gyfarfod, fwy neu lai. Mae'r Pwyllgorau Rhanbarthol eraill yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau y cyfathrebir ac y cyflawnir pob un o bolisiau'r Cynulliad yn effeithlon ledled Cymru. Mae hyd yn oed yn bwysicach bod safbwyntiau pobl ledled

who attend the public question and answer sessions and other Regional Committee meetings are fed back to us in the Assembly.

Glyn Davies: Thank you for that answer but I want to ask a more specific question. Do you agree that your personal failure, and that of your party, to publicly oppose unthinking authoritarian proposals to attack country sports, and fox hunting in particular, is alienating people in mid and north Wales? Because of the deliberate obfuscation that you have been guilty of between what is the administration and what is the Assembly, we all get the blame. Do you agree with some of your own people in north Wales, that you should change your mind on this policy?

The First Minister: Glyn, you and I get on well together and we agree on a lot of things, quite surprisingly, across the party divide. However, I do not think that we will ever agree on this issue. On your definition of what is an inalienable right for country people to pursue a particular ‘country sport’—which I do not accept is a sport—I doubt whether we will ever agree. It is the House of Commons’ right to legislate on this. Various other country sports, such as bear baiting and badger baiting, have been declared illegal in the past and are not pursued now and the countryside has not suffered from that. The same may happen to fox hunting. It is not a matter for this body; it is a matter for the House of Commons to eventually decide. In the light of the general election result, that may well happen. That is the verdict of the country as authorised through a general election, if not two general elections, which I do not have to remind you resulted in landslide victories.

Cymru sydd yn mynychu’r sesiynau cwestiwn ac ateb cyhoeddus a chyfarfodydd eraill Pwyllgorau Rhanbarthol yn cael eu bwydo yn ôl i ni yn y Cynulliad.

Glyn Davies: Diolch am yr ateb hwnnw ond yr wyf am ofyn cwestiwn mwy penodol. A gytunwch bod eich methiant personol chi, a methiant eich plaid, i wrthwynebu’n gyhoeddus gynigion awdurdodaidd difeddwl i ymosod ar chwaraeon cefn gwlad, a hela llwynogod yn arbennig, yn dieithrio pobl yng nghanolbarth a gogledd Cymru? Oherwydd y dryswch bwriadol y buoch yn euog ohono rhwng beth yw’r weinyddiaeth a beth yw’r Cynulliad, caiff pob un ohonom y bai. A gytunwch â rhai o’ch pobl eich hun yng ngogledd Cymru, y dylech newid eich meddwl ar y polisi hwn?

Prif Weinidog Cymru: Glyn, yr ydych chi a minnau yn cyd-dynnu’n dda a chytunwn ar lawer o bethau, sydd yn gryn syndod, ar draws y rhaniad rhwng y pleidiau. Fodd bynnag, ni chredaf y cytunwn byth ar y mater hwn. O ran eich diffiniad o’r hyn sydd yn hawl ddiymwad i bobl cefn gwlad fwynhau ‘gêm gefn gwlad’ arbennig—nad wyf yn derbyn ei bod yn gêm—mae’n amheus gennyf a gytunwn byth. Hawl Ty’r Cyffredin yw deddfu ar hyn. Datganwyd fod chwaraeon amrywiol eraill cefn gwlad, fel baetio eirth a baetio moch daear, yn anghyfreithlon yn y gorffennol ac ni chânt eu harfer bellach ac nid yw cefn gwlad wedi dioddef yn sgîl hynny. Efallai y bydd yr un peth yn digwydd i hela llwynogod. Nid mater i’r corff hwn mohono; mae’n fater i Dy’r Cyffredin benderfynu arno yn y pen draw. Yng ngoleuni canlyniad yr etholiad cyffredinol, mae’n bosibl iawn y bydd hynny’n digwydd. Dyna ddyfarniad y wlad ac fe’i hawdurdodwyd drwy etholiad cyffredinol, os nad dau etholiad cyffredinol, a arweiniodd—nid oes angen imi eich atgoffa—at fuddugoliaethau ysgubol.

Datganiad ar Ymweliad Prif Weinidog Cymru â De America Statement on the First Minister’s Visit to South America

Prif Weinidog Cymru: Fel yr wyf wedi gwneud yn y gorffennol, yr wyf yn awyddus i wneud datganiad i’r Cynulliad ar fy ymweliad â De America yr wythnos diwethaf.

The First Minister: As I have done in the past, I am keen to make a statement to the Assembly on my visit to South America last week.

Arhosais ddwy noson yn Buenos Aires, ddwy noson yn y Chubut, lle mae'r rhan fwyaf o gymuned Gymreig De America'n byw, a wedyn bwm am ddwy noson ac un diwrnod yn Santiago, sef prifddinas Chile.

Pwrpas yr ymweliad oedd mynd gyda naw cwmni—wyth o Gymru ac un o Loegr—ar genhadaeth fasnachol i'r Ariannin a Chile. Pwrpas arall oedd sefydlu cysylltiadau ffurfiol gyda'r Wladfa ym Mhatagonia a hefyd cael cyfle i drafod materion gwleidyddol a masnachol gyda phrif ffigyrau yr Ariannin a Chile. Tra yn Buenos Aires, cyfarfum â'r Gweinidog dros Dwristiaeth, Maer Buenos Aires, a hefyd gydag Arlywydd yr Ariannin, Arlywydd de la Rúa. Cyfarfum hefyd â Siambr Fasnach Buenos Aires, yn ogystal â phrif gynrychiolwyr busnesau o'r Ariannin a Phrydain a chanddynt gysylltiadau agos.

Yn Buenos Aires, cefais hefyd drafodaethau manwl ar adfywiad trefol â Corporacion Sur, sef y sefydliad sydd â chyfrifoldeb dros ailddatblygu yr hanner llai llewyrchus dinas Buenos Aires yn ogystal â'r prosiect adfywiad amgylcheddol fwyaf yn y ddinas, prosiect a noddir gan Lysgenhadaeth Prydain.

Yr oedd fy ymweliad â Phatagonia yng nghwmni Llysgennad Prydain, Syr Robin Christopher, yn tra emosiynol oherwydd yr oedd y croeso a gefais yn llethol. Yr oedd megis cwrdd â 5,000 o gefndryd ar yr un pryd, gan fod y gymuned Gymreig, er ei bod yn ei phumed genhedlaeth, yn parhau i deimlo perthynas gref â Chymru, â'r Gymraeg, ein cerddoriaeth, yr Eisteddfod a'n diwylliant ac mae modd inni roi cymorth ymarferol iddynt yn hyn o beth. Dylem geisio gwneud ymdrech i'w helpu i barhau gwerthoedd y bywyd Cymreig gan alluogi ein diwylliant i orosi mewn gwlad mor bell o Gymru ei hun.

Mae awdurdodau taleithiol y Chubut wedi cyflwyno cais ddrafft i UNESCO i gael statws treftadaeth y byd i'w 17 o gapeli Cymraeg, fel y llwyddasom yn achos gwaith haearn Blaenafon. Maent wedi cyflawni cam cyntaf y broses, ac yn awr maent yn awyddus i gwblhau'r cam terfynol, sydd yn cynnwys

I stayed in Buenos Aires for two nights, in Chubut province, where the majority of the South American Welsh community lives, for two nights, and in Santiago, the capital of Chile, for two nights and one day.

The purpose of the visit was to accompany nine companies—eight from Wales and one from England—on a trade mission to Argentina and Chile. The other purpose of the visit was to establish formal contacts with Y Wladfa in Patagonia and also to discuss political and commercial matters with the main figures in Argentina and Chile. While in Buenos Aires, I met with the Minister for Tourism, the Mayor of Buenos Aires, and also with the President of Argentina, President de la Rúa. I also met with the Buenos Aires Chamber of Commerce, as well as senior representatives of Argentinean and British businesses that have close links.

In Buenos Aires, I also had detailed discussions on urban regeneration with Corporacion Sur, the organisation responsible for redeveloping the less prosperous half of Buenos Aires as well as the largest environmental regeneration project in the city, which is sponsored by the British Embassy.

My visit to Patagonia, in the company of the British Ambassador, Sir Robin Christopher, was quite emotional, as the welcome that I received was overwhelming. It was like meeting 5,000 cousins all at once, because the Welsh community, although in its fifth generation, continues to feel a strong affinity with Wales, the Welsh language, our music, the Eisteddfod and our culture and we can give practical assistance in these areas. We should try to help it to continue with the values of the Welsh way of life, enabling our culture to survive in a country so far away from Wales itself.

The Chubut provincial authorities have presented a draft application to UNESCO to gain world heritage status for their 17 Welsh chapels, as we succeeded in doing with the Blaenavon ironworks. They have completed the first stage of the process, and now they are keen to complete the final stage, which

gwaith atgyweirio.

includes restoration work.

2:40 p.m.

Dywedais fy mod yn siŵr y byddai'r Cynulliad yn awyddus i gefnogi'r cais i UNESCO yn foesol pan fydd wedi'i gwblhau. Byddwn yn awyddus i weld y capeli yn rhan o atyniadau twristiaid y Wladfa. Mae twristiaid yn ymweld â'r capeli ac yn cael te yn y tai te Cymreig. Maent hefyd yn ymweld â'r amgueddfa baleontolegol newydd, sydd yn wych. Pe byddent yn lwcus, fel yr oeddwn i, gallent fynd i weld geni morfilod ar y traeth, bron yn yr union fan lle y glaniodd llong y Mimosa yn 1865.

I said that I was certain that the Assembly would be eager to lend moral support to the bid to UNESCO when it is completed. We would be eager to see these chapels as part of Y Wladfa's tourist attractions. Tourists visit the chapels, and take tea in the Welsh tea houses. They also visit the new palaeontology museum, which is splendid. If they are lucky, as I was, they can go to see whales being born on the beach, almost on the exact spot that the Mimosa ship came to shore in 1865.

Yr ydym yn rhoi elfen sylweddol o gymorth ymarferol iddynt. Cyfarfûm â phedwar athro ac athrawes o Gymru—sydd yno yn helpu i ddysgu ac addysgu'r iaith Gymraeg—ynghlŷn â'r cynllun a ddechreuodd Rod Richards ar ei ymweliad ef â'r Wladfa yn 1995 neu 1996. Dechreuwyd ar y cynllun yn 1997, ac y mae'n parhau o hyd. Y Cyngor Prydeinig sydd yn gweinyddu'r cynllun ar ein rhan, ond daw'r adnoddau o'n cyllideb diwylliannol.

We give them a good deal of practical support. I met with four teachers from Wales—who are out there helping to learn and teach the Welsh language—as part of the scheme that Rod Richards initiated during his visit to Y Wladfa in 1995 or 1996. The scheme started in 1997, and still continues. The British Council administers the scheme on our behalf, but the resources come from our cultural budget.

Credaf mai pedwar athro sydd yno. Cyfarfûm â'r pedwar ohonynt, a'r hyn a oedd yn ddi-ddorol oedd eu bod oll yn awyddus i aros yn y Wladfa, a phaidio â dychwelyd i Gymru. Yr oeddent yn mwynhau dysgu'r iaith Gymraeg mor bell oddi cartref, ac yn mwynhau'r gweithgareddau eraill, sef rhedeg gorsaf radio a chanu recordiau gyda'r hwyr er mwyn cadw'r ysbryd yn fyw, a helpu trefnu eisteddfodau. Mae diwylliant yr eisteddfod yn hynod o fyw yn y Wladfa.

I believe that there are four teachers there. I met with all four of them and what was interesting was that they were all eager to stay on in Y Wladfa, rather than returning to Wales. They enjoy teaching the Welsh language so far from home, and enjoy the other activities, namely running a radio station and playing records in the evening, to keep the spirit going, and helping to organise eisteddfodau. The eisteddfod culture is exceptionally vibrant in Y Wladfa.

Tra yr oeddwn yn Chubut, lansiais y prosiect dolen ysgolion yng Ngholeg Camwy. Bydd yn defnyddio'r rhyngwyd er mwyn cysylltu plant ysgol Chubut yn uniongyrchol â phlant ysgol o'r un oedran yng Nghymru. Gall hynny helpu i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhatagonia y tu hwnt i ddiwedd y prosiect presennol, sydd yn gorffen ym Mawrth 2003. Mae'r prosiect yn werthfawr, gan ei fod yn helpu plant Cymraeg eu hiaith, ond sydd yn byw mewn cymdeithasau mor wahanol ym Mhatagonia ac yng Nghymru, i ddeall yr agweddau gwahanol. Mae ganddynt iaith gyffredin, ond

While I was in Chubut, I launched the schools link project at Coleg Camwy. That project will use the internet to link the pupils of Chubut directly with pupils of the same age in Wales. That will assist in developing Welsh medium education in Patagonia beyond the current project, which will finish in March 2003. The project is valuable because it helps children who speak Welsh, but who live in such different communities in Patagonia and in Wales, to understand their differences. They have a common language, but there are many other aspects that are fascinating because they are so new. They

mae sawl agwedd ddiddorol arall am eu bod mor newydd. Gallant ddeall am eu diwylliannau a'u ffyrdd hollol wahanol o fyw.

I signed a memorandum of understanding with the governor of Chubut to build on our historic cultural links with that region. The province is 10 times the size of Wales but, with only 450,000 people, it has only one seventh of our population. We will be looking for practical opportunities for co-operation in tourism, heritage, economic development and export promotion as well as in language, education and culture.

He requested—jointly with the Mayor of Trevelyn in the foothills of the Andes, the westernmost extremity of the Welsh colony—that the Assembly should be represented at the centenary celebrations of the plebiscite of 30 April 1902, which determined that this district of Patagonia should be a part of Argentina and not Chile. That is a very rare example of a South American border dispute being settled by a plebiscite, not by force of arms. I said that the Assembly would consider that request.

In Santiago, I met President Lagos of Chile and had an interesting discussion with CORFO, the all-embracing economic development agency of the Chilean government, which has survived all the political turbulence of that country over the past 30 years. It has the potential for some co-operation with Welsh opposite numbers in economic development, such as the Welsh Development Agency and the Wales Tourist Board.

The companies on the trade mission expressed satisfaction with contacts and prospects established and, in one case, with contracts they had signed. They told me how positive their experience in Argentina had been and were complimentary about the organisation of the trade mission. They are on the point of leaving Chile for Brazil before returning to the UK on Friday.

When they have returned to the UK and followed up the contacts they made, it will be possible to give further and more definite

can learn about their totally different cultures and ways of living.

Arwyddais femorandwm dealltwriaeth gyda llywodraethwr Chubut er mwyn datblygu ein cysylltiadau diwylliannol hanesyddol â'r rhanbarth honno. Mae'r dalaith 10 gwaith yn fwy na Chymru, ond gyda dim ond 450,000 o bobl, dim ond un rhan o saith o'n poblogaeth sydd yno. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd ymarferol i gydweithio ym maes twristiaeth, treftadaeth, datblygu economaidd a hyrwyddo allforio yn ogystal ag ym meysydd iaith, addysg a diwylliant.

Gwnaeth gais—ar y cyd â Maer Trevelyn wrth odre'r Andes, sef man mwyaf gorllewinol y wladfa Gymreig—i'r Cynulliad gael ei gynrychioli yn nathliadau canmlwyddiant refferendwm 30 Ebrill 1902, a benderfynodd y byddai'r ardal hon o Batagonia yn rhan o'r Ariannin ac nid Chile. Mae hynny'n enghraifft brin iawn o ddadl am ffiniau yn Ne America yn cael ei setlo gan refferendwm, ac nid gan rym arfau. Dywedais y byddai'r Cynulliad yn ystyried y cais hwnnw.

Yn Santiago, cyfarfûm ag Arlywydd Lagos o Chile a chefais drafodaeth ddiddorol gyda CORFO, sef asiantaeth datblygu economaidd hollgynhwysfawr llywodraeth Chile, sydd wedi goroesi drwy holl derfysg gwleidyddol y wlad honno dros y 30 mlynedd diwethaf. Mae ganddo'r potensial i gydweithio i raddau â'r cyrff sydd yn cyfateb iddynt yng Nghymru ym maes datblygu economaidd, fel Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

Mynegodd y cwmnïau ar y genhadaeth fasnach foddhad â'r cysylltiadau a'r rhagolygon a sefydlwyd ac, mewn un achos, â'r cytundebau yr oeddent wedi'u harwyddo. Dywedasant wrthyf pa mor gadarnhaol y bu eu profiad yn yr Ariannin gan ganmol trefniadau'r genhadaeth fasnach. Maent ar fin gadael Chile am Frasil cyn dychwelyd i'r DU ddydd Gwener.

Pan fyddant wedi dychwelyd i'r DU a gwneud gwaith dilynol ar y cysylltiadau a wnaethant, bydd yn bosibl rhoi gwybodaeth

information on how successful the mission was from the political, commercial and cultural points of view. It gives every sign of being one of the most significant yet.

I wish finally to express my gratitude to the British ambassadors to Argentina and Chile and their staff, and the British Council office in Buenos Aires, not forgetting my own staff, for their exceptional helpfulness on this visit.

Dafydd Wigley: Diolchaf i'r Prif Weinidog am y datganiad hwnnw. Fel un a fu ym Mhatagonia yn 1965 ar gyfer y canmlwyddiant, mae gennyf brofiad o'r un math o groeso cynnes a diffuant ag a dderbyniodd y Prif Weinidog. Yr wyf yn sicr fod Rhodri wedi dychwelyd yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei allu, a'r hyn sydd yn ymarferol bosibl i'r Cynulliad ei wneud, i helpu.

Mae ychydig o bwyntiau yn codi o'r datganiad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â dyfodol y gyfundrefn i helpu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhatagonia wedi Mawrth 2003. A yw'r Prif Weinidog, yn sgîl ei brofiad yr wythnos diwethaf, wedi ystyried yr hyn y gallwn ei wneud i barhau â'r cymorth hwnnw? Yn ail, a yw'r Prif Weinidog yn derbyn y byddai'n addas i gynrychiolydd o'r Cynulliad ymweld â Phatagonia yn 2002—heb fod hynny'n peri gormod o gost i'r Cynulliad ac efallai y byddai rhai yn gallu talu'r costau eu hunain—er mwyn uniaethu â'r cytundeb a wnaethpwyd yn Ebrill 1902?

Yn olaf, a oes unrhyw arwydd ym mha sectorau y mae cyfle i fasnachu? Mae'n debyg y cafodd amryw o gwmnïau eu cynrychioli yn y fintai a deithiodd gyda'r Prif Weinidog i Batagonia. A oes sectorau penodol yn dangos potensial ar gyfer tyfiant ac a oes unrhyw beth y gall y Cynulliad ei wneud i hyrwyddo'r potensial hwnnw er mwyn datblygu masnach yn y sectorau hynny?

Prif Weinidog Cymru: Diolch am set gwta o gwestiynau. Nid wyf wedi ystyried yr hyn a wnawn ni wedi Mawrth 2003. O ran egwyddor, byddai'n gwbl amhriodol pe na

bellach a mwy pendant ar ba mor llwyddiannus fu'r genhadaeth o'r safbwyntiau gwleidyddol, masnachol a diwylliannol. Dengys bob arwydd o fod yn un o'r mwyaf arwyddocaol eto.

Dymunaf yn olaf fynegi fy niolchgarwch i lysgenhadon Prydain i'r Ariannin a Chile a'u staff, a staff y Cyngor Prydeinig yn Buenos Aires, heb anghofio fy staff fy hun, am eu parodrwydd eithriadol i helpu ar yr ymweliad hwn.

Dafydd Wigley: I thank the First Minister for that statement. As someone who visited Patagonia in 1965 for the centenary, I have experienced the same kind of warm and sincere welcome that the First Minister received. I am sure that Rhodri has returned determined to do everything that he can, and what is practicable for the Assembly to do, to help.

A few points arise from the statement. The first relates to the future of the system to help Welsh-medium education in Patagonia after March 2003. Has the First Minister, in view of his experience last week, considered what we can do to continue that support? Secondly, does the First Minister accept that it would be appropriate for a representative of the Assembly to visit Patagonia in 2002—without incurring a great cost on the Assembly, and perhaps some people would be able to do so at their own expense—in order to commemorate the agreement made in 1902?

Finally, is there any indication of which sectors offer an opportunity to trade? It appears that a variety of companies were represented in the party that visited Patagonia with the First Minister. Do any specific sectors show a potential for growth and is there anything that the Assembly can do to promote that potential in order to develop trade in those sectors?

The First Minister: Thank you for a brief set of questions. I have not yet considered what we will do after March 2003. In principle, it would be totally wrong were we not to

baem yn parhau i helpu'r Wladfa. Fodd bynnag, nid ydym wedi ystyried y mater hyd yn hyn, gan fod bron i ddwy flynedd cyn y dyddiad hwnnw.

Gan inni ymweld â'r Wladfa eleni, anodd fyddai cyfiawnhau ymweld â Phatagonia eto fis Ebrill 2002 ar gyfer canmlwyddiant cytundeb 1902. Fodd bynnag, yr oedd cryn bwysau arnom i wneud hynny oherwydd mae'r bobl yno am ddatlu'r modd democrataidd y setlwyd ffræ ynglŷn ag i ba wlad y dylai ardal berthyn. Mae'r egwyddor ddemocrataidd yn y fantol, ynghyd â diwylliant a dylanwad y Cymry yn ardal Trevelyn a Cwmhyfryd, o ran penderfyniad yr ardaloedd hynny i ddod yn rhan o'r Ariannin yn hytrach na Chile. Mae penderfynu pa un ai i dderbyn y gwahoddiad yn fater i holl bleidiau'r Cynulliad i'w drafod. Y cwbl y gallaf ei ddweud yw y rhoddwyd cryn bwysau arnom gan faer a llywodraeth y dalaith i fod yn bresennol.

O ran masnach, o'r wyth o gwmnïau yn y fintai, dim ond un cynrychiolydd a ddaeth gyda ni i'r Wladfa, sef Kathy Gittins o ganolbarth Cymru, gan mai hi oedd yr unig un yn bresennol sydd yn ymwneud ag elfen ddiwylliannol o fasnach. Yr oedd yn awyddus i geisio trefnu i werthu ei chardiau, nid dim ond yn siopau mawr a phwysig Buenos Aires, ond yn y Wladfa hefyd, gan fod twristiaid yn ymweld â'r fan honno pan fyddant yn ymweld â Phatagonia. Yr oedd y cwmnïau eraill, er enghraifft, yn gwmnïau bach, llwyddiannus, technolegol ym maes peirianeg a gwasanaethau *geotechnical*. Nid yw'r Ariannin wedi ei hystyried yn helaeth o ran aur, glo, olew, nwy ac ati. Mae llawer i'w wneud o ran y meysydd hynny. Felly, y mathau hynny o ddiwydiannau arbenigol a fydd yn llwyddo yn yr Ariannin a Chile, nid cwmnïau sydd yn gwerthu ceir neu nwyddau y gallech eu prynu unrhyw le yn y byd.

Jonathan Morgan: On behalf of the Welsh Conservative Party, I congratulate the First Minister on what was clearly a successful visit. We are proud, as a party, of the historical significance of the cultural links with Patagonia. Bearing in mind that Patagonia has enjoyed the support of UK governments of two political colours, we are proud of what Conservative Ministers

continue to support Y Wladfa. However, we have not yet considered that matter, as there is almost two years before that date.

As we have visited Y Wladfa this year, it would be difficult to justify another visit to Patagonia in April 2002 for the centenary of the 1902 agreement. However, we were placed under considerable pressure to do so as the people there wish to celebrate the democratic way in which the dispute about to which country a region should belong was resolved. The democratic principle is at stake, along with the influence and culture of the Welsh in Trevelyn and Cwmhyfryd, in terms of the decision made by those regions to become part of Argentina rather than Chile. Deciding whether or not to accept the invitation will be a matter for all parties in the Assembly to discuss. All I can say is that the mayor and government of the region put considerable pressure on us to be present.

As regards trade, of the eight companies that were part of the visiting party, only one representative came with us to Y Wladfa, namely Kathy Gittins from mid Wales, as she was the only one present who deals in cultural goods. She was keen to arrange for her cards to be sold, not only in the major shops of Buenos Aires, but also in Y Wladfa, as it is part of the tourist circuit in Patagonia. The other companies were, for example, small, successful, high-tech companies in the fields of engineering and geotechnical services. Argentina has not been considered to a great extent in terms of gold, coal, oil, gas and so on. There is much to be done as regards those areas. Therefore, those are the types of specialist industries that will succeed in Argentina and Chile, rather than companies that sell cars or products that are available all over the world.

Jonathan Morgan: Ar ran Plaid Geidwadol Cymru, llongyfarchaf y Prif Weinidog ar ymweliad a oedd yn amlwg yn llwyddiant. Yr ydym yn falch, fel plaid, o arwyddocâd hanesyddol y cysylltiadau diwylliannol â Phatagonia. O gofio i Batagonia fwynhau cymorth llywodraethau o ddau liw gwleidyddol yn y DU, yr ydym yn falch o'r hyn a gyflawnodd Gweinidogion Ceidwadol

achieved during the party's last administration, and we would hope to see those links developed further.

The initiative established between schools in Patagonia and in Wales will facilitate young people from Wales to travel to Patagonia to spend time there, in order to understand the cultural links and perhaps even to work there. Through my work, I am aware of young people who spent time in Patagonia to develop links between families there and in Wales. That work has proved to be fruitful. We would be keen to see those links developed further, to allow people from Wales to see the excellent work being done and to understand that a national culture and language can survive beyond national borders.

2:50 p.m.

We are also keen to learn of the commercial and cultural links that have been developed. You said that you would come back to us to outline some of the details of the companies that travelled with you. We congratulate you and hope to see these sort of links being developed further in the future.

The First Minister: Thank you for the spirit in which you made those remarks. They re-emphasise to me that this is not a party political issue. The most successful recent mission was started by Rod Richards in a period when either John Redwood or William Hague was Secretary of State for Wales. It is working well and we are carrying it on. We will have to see in what way the matter is pursued for the period beyond May 2003. It is important that we preserve a completely cross-party attitude towards maintaining that link. They are proud of the way it has worked over the past three years since it was started, I think, in January 1997, following the initiatives of 1996.

The implication of Dolen Ysgolion is not to encourage travel between the two countries. In a way, it is almost to avoid the need for travel because the internet is practical, cheap and quick. The Welsh community in Patagonia needs to feel less isolated. It feels

yn ystod gweinyddiaeth ddiwethaf y blaid, a gobeithiwn weld y cysylltiadau hynny'n cael eu datblygu ymhellach.

Bydd y fenter a sefydlwyd rhwng ysgolion ym Mhatagonia ac yng Nghymru yn ei gwneud yn haws i bobl ifanc o Gymru deithio i Batagonia i dreulio amser yno, er mwyn deall y cysylltiadau diwylliannol ac efallai weithio yno hyd yn oed. Drwy fy ngwaith, yr wyf yn ymwybodol o bobl ifanc a dreuliodd amser ym Mhatagonia i ddatblygu cysylltiadau rhwng teuluoedd yno ac yng Nghymru. Profodd y gwaith hwnnw yn fuddiol. Byddem yn awyddus i weld y cysylltiadau hynny'n cael eu datblygu ymhellach, gan ganiatáu i bobl o Gymru weld y gwaith gwych a wneir a deall y gall diwylliant cenedlaethol ac iaith oroesi y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol.

Yr ydym hefyd yn awyddus i ddysgu am y cysylltiadau masnachol a diwylliannol a ddatblygwyd. Dywedasoeh y buasech yn dod yn ôl atom i amlinellu rhai o'r manylion am y cwmnïau a deithiodd gyda chi. Fe'ch llongyfarchwn gan obeithio gweld y mathau hyn o gysylltiadau yn cael eu datblygu ymhellach yn y dyfodol.

Prif Weinidog Cymru: Diolch am ysbryd y sylwadau hynny. Pwysleisiasant o'r newydd imi nad mater pleidiol-wleidyddol yw hwn. Dechreuwyd y genhadaeth ddiweddar fwyaf llwyddiannus gan Rod Richards mewn cyfnod pan mai naill ai John Redwood neu William Hague oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gweithia'n dda a pharhawn â hi. Bydd yn rhaid inni weld ym mha ffordd y datblygir y mater ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i Fai 2003. Mae'n bwysig ein bod yn diogelu agwedd gwbl drawsbleidiol tuag at gynnal y cysylltiad hwnnw. Maent yn falch o'r ffordd y gweithiodd dros y tair blynedd diwethaf ers iddo ddechrau, fe gredaf, yn Ionawr 1997, yn dilyn mentrau 1996.

Nid goblygiad Dolen Ysgolion yw annog teithio rhwng y ddwy wlad. Mewn ffordd, bron nad yw er mwyn osgoi'r angen i deithio gan fod y rhyngrwyd yn ymarferol, yn rhad ac yn gyflym. Mae angen lleihau'r ymdeimlad ymhlith y gymuned Gymreig ym

terribly isolated. There may not be more than 5,000 people in the Welsh community now, who are 10,000 miles away from Wales and 18 hours by plane. It is not like going to the Urdd camp in Llangrannog. The internet provides the ability to establish communication and interest between kids of the same age group who live in a totally different culture but who happen to speak the same language. That will be important. The Welsh community in Patagonia lacks the critical mass. We often think that the Welsh language in Wales lacks the critical mass and, by the standards of the English language, it undoubtedly does with 500,000 or 600,000 speakers. When you only have 5,000 speakers, critical mass is much more critical. Dolen Ysgolion enables children to communicate in Welsh through the internet without spending much money. The cultural impact, 10 or 15 years later, when they are thinking of going to college or university, is likely to involve travel to Wales to improve their Welsh that, because of the social changes in Patagonia, they are struggling to maintain. When you ask them how many people speak Welsh in Patagonia, the answer you will get is that they are burying more Welsh speakers every week.

Mick Bates: I thank the First Minister for his statement. I look forward to visiting Patagonia one day and being able to buy a Kathy Gittins card made in Meifod, Montgomeryshire there.

The First Minister: You could buy one in Cwmafan as well.

Mick Bates: Good.

That is one of the great successes of such visits. The Welsh Liberal Democrats join in congratulating you on a successful visit, particularly in terms of its educational and cultural elements. On the issue of trade, did you discuss with any officials of the Chilean or Argentinean governments meat exports from their countries? As you are aware, this is now a sensitive issue, particularly due to the foot and mouth disease crisis. If you did not discuss the issue, will you undertake to do so in the future?

Mhatagonia eu bod wedi'u hynysu. Teimla'n ofnadwy o ynysig. Efallai nad oes mwy na 5,000 o bobl yn y gymuned Gymreig yn awr, sydd 10,000 o filltiroedd i ffwrdd o Gymru a 18 awr ar awyren. Nid yw'n debyg i fynd i wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Mae'r rhyngrwyd yn ei gwneud yn bosibl sefydlu cyfathrebu a diddordeb rhwng plant o'r un grw^p oedran sydd yn byw mewn diwylliant hollol wahanol ond sydd yn digwydd siarad yr un iaith. Bydd hynny'n bwysig. Mae diffyg más critigol yn y gymuned Gymreig ym Mhatagonia. Credwn yn aml bod diffyg más critigol o ran yr iaith Gymraeg yng Nghymru ac, yn ôl safonau'r iaith Saesneg, mae hynny'n wir yn ddi-os gyda 500,000 neu 600,000 o siaradwyr. Pan mai dim ond 5,000 o siaradwyr sydd gennych, mae más critigol yn llawer pwysicach. Galluoga Dolen Ysgolion blant i gyfathrebu yn Gymraeg drwy'r rhyngrwyd heb wario llawer o arian. Mae'r effaith ddiwylliannol, 10 neu 15 mlynedd yn ddiweddarach, pan ystyriant fynd i'r coleg neu'r brifysgol, yn debygol o gynnwys teithio i Gymru i wella eu Cymraeg y maent, oherwydd y newidiadau cymdeithasol ym Mhatagonia, yn brwydro i'w chadw. Pan ofynnwch iddynt faint o bobl sydd yn siarad Cymraeg ym Mhatagonia, yr ateb a gewch yw eu bod yn claddu mwy o bobl sydd yn siarad Cymraeg bob wythnos.

Mick Bates: Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad. Edrychaf ymlaen at ymweld â Phatagonia un dydd a gallu prynu cerdyn Kathy Gittins a wnaethpwyd ym Meifod, Sir Drefaldwyn yno.

Prif Weinidog Cymru: Gallech brynu un yng Nghwmafan hefyd.

Mick Bates: Da iawn.

Mae hwnnw'n un o lwyddiannau mawr ymweliadau o'r fath. Ymuna Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'ch llongyfarch ar ymweliad llwyddiannus, yn arbennig yn nhermau ei elfennau addysgiadol a diwylliannol. O ran masnach, a drafodasoch allforio cig o'r Ariannin neu Chile gydag unrhyw swyddogion o lywodraethau'r gwledydd hynny? Fel yr ydych yn ymwybodol, mae hwn bellach yn fater sensitif, yn arbennig yn sgîl argyfwng clwy'r traed a'r genau. Os na thrafodasoch y mater,

a wnewch chi addo gwneud hynny yn y dyfodol?

The First Minister: I am grateful for your comments because Kathy Gittins was extremely helpful as we had one slight problem in the meeting that we had in the St David's hall in Gaiman, which was the climax of the two-day visit to Chubut. They did not have anybody from the local Welsh community who knew how to play the piano to accompany *Hen Wlad fy Nhadau*, so Kathy Gittins was pressed into service. She is more than a brilliant card designer.

Foot and mouth disease is endemic in Argentina, where it abuts the Andes and northern countries like Peru, Bolivia, Paraguay and Brazil. They now have a major outbreak and are vaccinating on a massive scale, which is the only potential they have when the disease is endemic. We discussed the issue. They were staggered at the slaughter policy. A different philosophy is applied in Europe than in a continent where foot and mouth disease is endemic. They realise that exports from the northern half of Argentina, north of the River Plate, are completely banned. I am not sure of the situation of beef—

Carwyn Jones: It is all banned.

The First Minister: It is all banned, is it? They are two different philosophies. Argentineans are great eaters and exporters of meat. Our problem is that we must have the export capability. We do not eat as much meat as the Argentineans.

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn ddiolchgar am eich sylwadau oherwydd yr oedd Kathy Gittins yn eithriadol o barod ei chymorth pan gawsom un broblem fach yn y cyfarfod yn neuadd Dewi Sant yn y Gaiman, sef uchafbwynt yr ymweliad deuddydd â Chubut. Nid oedd ganddynt unrhyw un o'r gymuned Gymreig leol a allai chwarae'r piano i gyfeilio i *Hen Wlad fy Nhadau*, felly pwyswyd ar Kathy Gittins i wneud hynny. Mae'n fwy na dylunydd cardiau gwyach.

Mae clwy'r traed a'r genau yn endemig yn yr Ariannin, lle y ffinia â'r Andes a gwledydd gogleddol fel Periw, Bolifia, Paraguay a Brasil. Ar hyn o bryd mae achosion lu o'r clwyf wedi torri allan yno ac maent yn brechu ar raddfa enfawr, sef yr unig botensial sydd ganddynt pan fo'r clwyf yn endemig. Trafodasom y mater. Yr oeddent wedi'u syfrdanu gan y polisi cigydd. Cymhwysir athroniaeth wahanol yn Ewrop nag mewn cyfandir lle y mae clwy'r traed a'r genau yn endemig. Sylweddolasant fod allforion o hanner gogleddol yr Ariannin, i'r gogledd o Afon Plate, wedi'u gwahardd yn llwyr. Nid wyf yn siŵr am sefyllfa cig eidion—

Carwyn Jones: Mae'r cyfan wedi'i wahardd.

Prif Weinidog Cymru: Mae'r cyfan wedi'i wahardd, ydyw? Maent yn ddwy athroniaeth wahanol. Mae'r Archentwyr yn bwyta ac yn allforio llawer o gig. Ein problem ni yw bod yn rhaid wrth y gallu i allforio arnom. Ni fwytawn gymaint o gig â'r Archentwyr.

Rod Richards: Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad. Yr wyf yn ei longyfarch ar ei ymweliad llwyddiannus â De America, yn enwedig yr ymweliad â'r Ariannin a'r Wladfa ym Mhatagonia lle, fel y dywedodd, profais yr un croeso. Croesawaf ei eiriau positif am ddyfodol y cysylltiadau rhwng Cymru a'r Wladfa. Credaf fod pawb yn y Cynulliad yn cytuno y dylem gryfhau'r cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli. Felly, a wnaiff Prif Weinidog Cymru gysylltu â'r Llywydd ynghylch agoriad swyddogol yr adeilad newydd yn 2003 ac ystyried gwahodd arweinwyr y Wladfa, sef llywydd Chubut ac yn y blaen, i'r agoriad swyddogol hwnnw fel ein bod yn gallu adeiladu ar y cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli?

Prif Weinidog Cymru: Y mae hwnnw'n awgrym gweddus ac fe'i trosglwyddaf i'r Llywydd.

Glyn Davies: Congratulations on your visit, First Minister. Many of us have a special affinity with Patagonia. You spoke of 5,000 cousins; I can speak of actual cousins. Some of my proudest past achievements include winning two bardic chairs for literary achievements. On both occasions, the adjudicator was a professor from Patagonia. Do you agree that the language and connections of this sort form a wonderful basis for a true internationalisation of this Assembly to look out on the world? Not only is there a Welsh-speaking population in Patagonia, but I am told by authorities in my group—namely David Melding and William Graham, who seem to know everything about such matters—that there is also a huge Welsh population in India. From personal experience, I know that the Malaysian high command was speaking Welsh in Malaysia's war against Indonesia as a way of depriving information from the Indonesian leadership—

The Presiding Officer: Order. This statement is about Patagonia.

Glyn Davies: I was just coming to that. I felt that it was too good an example to pass over given the potential for the internationalisation of this Assembly. I wanted to encourage the First Minister to repeat what he did on this

Rod Richards: I thank the First Minister for his statement. I congratulate him on his successful visit to South America, especially the visit to Argentina and Y Wladfa in Patagonia where, as he said, I experienced the same welcome. I welcome his positive words about the future links between Wales and Y Wladfa. I think that everybody in this Assembly agrees that we should strengthen the existing links. Therefore, will the First Minister contact you, Presiding Officer, on the official opening of the new building in 2003 and consider inviting the leaders of Y Wladfa, such as the president of Chubut and so on to that official opening so that we can build on the existing links?

The First Minister: That is an appropriate suggestion and I will pass it on to the Presiding Officer.

Glyn Davies: Llongyfarchiadau ar eich ymweliad, Brif Weinidog. Mae gan lawer ohonom berthynas arbennig â Phatagonia. Soniasoch am 5,000 o gefndryd; gallaf innau sôn am gefndryd go iawn. Ymhlith rhai o'r pethau a gyflawnais yn y gorffennol yr wyf yn fwyaf balch ohonynt mae ennill dwy gadair farddol am gyflawniadau llenyddol. Ar y ddau achlysur, yr oedd y beirniad yn athro o Batagonia. A gytunwch fod yr iaith a chysylltiadau o'r math hwn yn sail fendigedig i ryngwladoli'r Cynulliad hwn mewn gwirionedd i edrych allan ar y byd? Nid yn unig mae poblogaeth sydd yn siarad Cymraeg ym Mhatagonia, ond dywedir wrthyf gan arbenigwyr yn fy ngrŵp—sef David Melding a William Graham, sydd, i bob golwg, yn gwybod popeth am faterion o'r fath—bod poblogaeth Gymreig enfawr yn yr India. O brofiad personol, gwn fod yr uwch reolaeth ym Maleisia yn siarad Cymraeg yn ystod rhyfel Maleisia yn erbyn Indonesia fel ffordd o amddifadu arweinwyr Indonesia o wybodaeth—

Y Llywydd: Trefn. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â Phatagonia.

Glyn Davies: Yr oeddwn ar fin dod at hynny. Teimlwn ei bod yn enghraifft rhy dda i'w hepgor o gofio potensial y Cynulliad hwn ar gyfer rhyngwladoli. Yr oeddwn am annog y Prif Weinidog i ailadrodd yr hyn a wnaeth ar

occasion on other similar visits.

The First Minister: You should make more use of your hidden talents in the eisteddfodic and bardic fields.

The astonishing thing about Y Wladfa and its culture is that the eisteddfod and Welsh choral music is surviving longer than the language itself. Attendance at eisteddfodau and membership of Welsh choirs is good, but given that many of the Welsh have stopped being farmers and have moved into trade or public administration in towns like Trelew and Gaiman, it is more difficult for the language to be passed on. When you are on a farm, the language is passed on almost automatically. That is the nature of the social transformation or change in Y Wladfa. However, that does not harm the eisteddfod. Everybody still attends it and the singing and dancing, or at least the musical culture, is very strong.

Gwnaethpwyd rhai pwyntiau penodol, er enghraifft, ynglŷn â'r £12 miliwn a neilltuwyd. Y cyfan a wna'r adroddiad grant arbennig hwn yw ymestyn y terfyn amser ar y dyraniadau grant a dalwyd. O ran sicrhau bod rhagor o arian ar gael, dywedais y byddwn yn adolygu'r sefyllfa ar ôl tri mis ac yr wyf yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Yng ngoleuni'r adolygiad hwnnw, byddaf yn ystyried pa gymorth pellach y gellid ei roi i fusnesau yr effeithiwyd arnynt. O ran busnesau o'r fath, gwnaeth Mick Bates bwynt ynglŷn ag awdurdodau lleol yn defnyddio arian i farchnata gweithgareddau eu hunain neu drwy sefydliadau ymbarél. Yr wyf yn pryderu bod rhai busnesau unigol yn dal i'w chael yn anodd i oroesi. Mae angen help arnynt ar unwaith a bwriedir i hyblygrwydd y grant arbennig ddarparu'r help hwnnw. Cydnabyddaf bod angen datrysiadau tymor hir arnom. Mae angen inni hefyd ystyried hyrwyddo twristiaeth, yn cynnwys marchnata. Fodd bynnag, rhaid i arian o'r grant arbennig fynd yn syth at y rhai yr effeithiwyd arnynt. Gwnaeth Nick Bourne bwynt ynglŷn â gweithrediad y grant a byddaf yn edrych ar y mater hwnnw yng ngoleuni ei sylwadau.

Bydd o ddiddordeb i Aelodau wybod nad oes unrhyw awdurdod lleol bellach wedi gwneud ceisiadau dros dro o dan gynllun Bellwin. Byddaf yn ystyried ymestyn y cynllun hwnnw ar ôl Mehefin yng ngoleuni datblygiadau. Sicrhaf Aelodau'r Cynulliad y byddaf yn rhoi'r estyniad amser angenrheidiol i awdurdodau lleol os gallant sicrhau y byddant yn dosbarthu'r arian hwn. Fodd bynnag, ceir materion ehangach ynglŷn

to the scheme might be needed. I will finalise my review in the next week or so and report back to the National Assembly on any further issues that arise.

â pha gymorth pellach neu estyniadau pellach i'r cynllun a allai fod eu hangen. Byddaf yn terfynu fy adolygiad yn yr wythnos nesaf neu wedi hynny ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol ar unrhyw faterion pellach sydd yn codi.

Cynnig: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 44, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

Derbyniwyd y cynnig.

Motion carried.

Deddf Llywodraeth Leol 2000 **The Local Government Act 2000**

Y Llywydd: Cyn i mi alw siaradwyr yn y ddadl hon, yr wyf am dynnu sylw'r Cynulliad at y defnydd o'r term 'Mesur' yn y cynnig heddiw a'r cynnig a fydd ger ein bron ddydd Iau. Wrth wisgo fy het seneddol, mae gan 'Mesur' ystyr dechnegol mewn cyfraith gyfansoddiadol: hynny yw, mae'n gynnig ar gyfer Deddf seneddol. Mae'r ddeddfwriaeth eilaidd sydd ger ein bron i'w chymeradwyo heddiw a ddydd Iau, yn perthyn i gategori gwahanol o ddeddfwriaeth. Nid yw'r rhain yn 'Fesurau' yn yr ystyr dechnegol. Aelodau sydd yn gyfrifol am eiriad eu cynigion ac mae'r cynnig heddiw yn dechnegol mewn trefn. Tynnaf sylw at y ffaith y gall fod yn ddryslyd i ddefnyddio'r term 'Mesur' ar hyn o bryd, o ystyried pwerau a gweithdrefnau presennol y Cynulliad hwn.

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): I stand suitably chastised over the use of that terminology. However, we have tried to present regulations or Orders as an integrated package.

David Melding: Resign.

The Presiding Officer: Order. We are discussing a technical, constitutional nicety upon which the Minister is deliberating.

Andrew Davies: We used the word 'Bill' in its original sense, namely, a list of Government regulations. However, it is clearly inappropriate and, where appropriate, we should determine and use our own terminology. We will certainly do that.

The Presiding Officer: We will now move on. I have selected amendments 1, 2, 4 and 7 in the name of Jocelyn Davies, amendment 3 in the name of Ron Davies and amendments 5 and 6 in the name of William Graham.

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): I propose that

the National Assembly

The Presiding Officer: Before I call speakers in this debate, I draw the Assembly's attention to the use of the term 'Bill' in today's motion and the motion that will be before us on Thursday. Wearing my parliamentary hat, the term 'Bill' has a technical meaning in constitutional law: that is, it is a proposal for a parliamentary Act. The secondary legislation before us for approval today and on Thursday, belongs to a different category of legislation. Technically, these are not 'Bills'. Members are responsible for the wording of their motions and today's motion is technically in order. I draw attention to the fact that it can be confusing to use the term 'Bill' at present, given the current powers and procedures of this Assembly.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Ar ôl y cerydd hwnnw syrthiaf ar fy mai am ddefnyddio'r derminoleg honno. Fodd bynnag, yr ydym wedi ceisio cyflwyno rheoliadau neu Orchmynion fel pecyn integredig.

David Melding: Ymddiswyddwch.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydym yn trafod manylyn technegol, cyfansoddiadol y mae'r Gweinidog yn ymdrin ag ef.

Andrew Davies: Defnyddiwyd y gair 'Mesur' gennym yn ei ystyr wreiddiol, sef rhestr o reoliadau'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg ei fod yn amhriodol a dylem bennu a defnyddio ein terminoleg ein hunain, lle y bo hynny'n briodol. Byddwn yn sicr yn gwneud hynny.

Y Llywydd: Symudwn ymlaen yn awr. Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 4 a 7 yn enw Jocelyn Davies, gwelliant 3 yn enw Ron Davies a gwelliannau 5 a 6 yn enw William Graham.

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol

1. welcomes the provisions of the Assembly Local Government Bill (details of which were e-mailed to Members on 12 June 2001) which will require the modernisation of local government constitutions and political management structures and lead to greater transparency and accountability in local government.

2. notes the draft guidance for local authorities entitled 'Consultation Guidelines for County and County Borough Councils in Wales', and 'Guidance for County and County Borough Councils in Wales on Executive Arrangements' both laid in the Table Office on 11 June. (NDM702)

3:30 p.m.

This motion covers a range of provisions, which will require the modernisation of local government constitutions. The principles of the proposed changes are as follows: there should be clarity of leadership and responsibility in local authorities, identifying who is responsible for what; there should be rigorous public scrutiny and accountability for how responsibilities are exercised; there should also be an open process in which all councillors and communities are actively engaged. These are the fundamental democratic principles and we are being innovative in putting them into effect in a changing modern world. The world is changing all the time from the perspective of local government. Local authorities, consulting local people, will form an executive in the form of a cabinet, elected mayor or council manager, or they will form a board.

Local authorities must put in place arrangements to ensure that the executive is subject to rigorous scrutiny, and that there is access to information and an open policy process. There is a full role for all councillors in achieving best value and providing community leadership but they will need to learn new skills and develop new procedures. There are provisions whereby local people may petition for a referendum on an elected

1. yn croesawu darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol y Cynulliad (y cafodd y manylion amdano eu hanfon drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 12 Mehefin 2001) a fydd yn golygu y bydd yn ofynnol i lywodraeth leol foderneiddio ei chyfansoddiadau a'i strwythurau rheoli gwleidyddol ac a fydd yn arwain at lywodraeth leol fwy tryloyw ac atebol.

2. yn nodi'r canllawiau drafft ar gyfer awdurdodau lleol sydd yn dwyn y teitlau 'Consultation Guidelines for County and County Borough Councils in Wales', a 'Guidance for County and County Borough Councils in Wales on Executive Arrangements' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2001. (NDM702)

Mae'r cynnig hwn yn cwmpasu amrywiaeth o ddarpariaethau, a fydd yn golygu y bydd yn ofynnol i lywodraeth leol foderneiddio eu cyfansoddiadau. Mae egwyddorion y newidiadau arfaethedig fel a ganlyn: dylai fod eglurdeb ynglŷn ag arweinyddiaeth a chyfrifoldeb o fewn awdurdodau lleol, gan nodi pwy sydd yn gyfrifol am beth; dylai fod proses graffu gyhoeddus drylwyr ac atebolrwydd ynghylch sut y caiff cyfrifoldebau eu gweithredu; dylai fod proses agored y gall pob cynghorydd a chymuned gymryd rhan weithgar ynddi. Dyma'r egwyddorion democrataidd sylfaenol ac yr ydym yn arloesi wrth eu gweithredu mewn byd modern cyfnewidiol. Mae'r byd yn newid drwy'r amser o safbwynt llywodraeth leol. Bydd awdurdodau lleol, drwy ymgynghori â'r bobl leol, yn sefydlu gweithrediaeth ar ffurf cabinet, maer etholedig neu reolwr cyngor, neu byddant yn sefydlu bwrdd.

Rhaid i awdurdodau lleol roi trefniadau ar waith i sicrhau y creffir ar yr weithrediaeth yn drylwyr, a'i bod yn hawdd i bobl gael gafael ar wybodaeth a bod proses agored ar gyfer gwneud polisiau. Mae rôl lawn i bob cynghorydd o ran cyflawni gwerth gorau a rhoi arweinyddiaeth i'r gymuned ond bydd angen iddynt ddysgu sgiliau newydd a datblygu gweithdrefnau newydd. Ceir darpariaethau lle y gall pobl leol wneud cais

mayor. I propose that in Wales the petition would need to include 10 per cent of the electorate.

The provisions include an alternative arrangement that responds to the particular needs expressed by some Welsh councils. In that arrangement the board is politically balanced and may include up to 20 per cent of the council membership. There is also greater flexibility in delegating to area committees. That arrangement may be suitable to some of our more rural areas. It is consistent with the principles of clear responsibility and accountability.

I will turn to the amendments. What is Plaid Cymru's first amendment? Why can they not welcome an innovation? We should not merely 'note' the provisions. We should always welcome this renewal of democracy, not just note it. When I was a child, I was always perplexed when I went to see the trains with my father because there was always a small and strange group of people who spent their time train-spotting on Gowerton station. They never welcomed a train, or said anything nice to someone who came off it; they never caught or drove a train, they just noted the train in their books. When I look at the Plaid Cymru Members in this Chamber I see that group again in front of me today, stranded at the end of Gowerton platform, rain dripping off their anoraks, making notes. We are talking about the modernisation of the local government agenda. I say to all Assembly Members: let us put aside our anoraks, reject amendments 1 and 2 and wholeheartedly welcome these provisions.

Plaid Cymru's insularity and lack of ambition is also represented in amendment 7, which suggests that these provisions for Welsh local government have been imposed by a Westminster Parliament with no regard to Welsh circumstances. That is absolute rubbish. Welsh local authorities have, for a large part of the last decade, led a debate throughout the United Kingdom about the roles and structures of local government. Plaid Cymru does Wales a great disservice when it depicts us all as reflections of themselves: passive, powerless and

am refferendwm ar faer etholedig. Cynigiau y byddai angen i'r cais yng Nghymru gynnwys 10 y cant o'r etholwyr.

Ymhlith y darpariaethau y mae trefniant amgen sydd yn ymateb i'r anghenion penodol a fynegwyd gan rai cynghorau yng Nghymru. O dan y trefniant hwnnw, byddai cydbwysedd gwleidyddol gan y bwrdd, a gallai gynnwys hyd at 20 y cant o aelodaeth y cyngor. Ceir mwy o hyblygrwydd hefyd o ran dirprwyo i bwyllgorau ardal. Gallai'r trefniant hwnnw fod yn addas i rai o'n hardaloedd mwyaf gwledig. Mae'n gyson ag egwyddorion cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir.

Trof at y gwelliannau. Beth yw gwelliant cyntaf Plaid Cymru? Pam na allant groesawu rhywbeth newydd? Ni ddylem 'nodi' y darpariaethau yn unig. Dylem bob amser groesawu adfywio democratiaeth yn y fath fodd, nid ei nodi yn unig. Pan oeddwn yn blentyn, yr oeddwn bob amser yn drysu wrth fynd i weld y trenau â'm tad am fod grŵp bach rhyfedd o bobl bob amser yno a dreuliai eu hamser yn gwyllo trenau yng ngorsaf Tregŵyr. Nid oeddent byth yn croesawu trê, neu'n dweud rhywbeth cyfeillgar i unrhyw un a ddisgynnai o'r trê; nid oeddent byth yn dal neu'n gyrru trê, dim ond nodi'r trê yn eu llyfrau a wnaethant. Pan edrychaf ar Aelodau Plaid Cymru yn y Siambr hon gwelaf y grŵp hwnnw unwaith eto ger fy mron heddiw, wedi ei ynysu ar blatfform Tregŵyr, gyda'r glaw yn tasgu oddi ar eu hanoracs, yn gwneud nodiadau. Yr ydym yn sôn am foderneiddio agenda llywodraeth leol. Dywedaf wrth bob Aelod o'r Cynulliad: gadewch inni ddiosg ein hanoracs, gwrthod gwelliannau 1 a 2 a chroesawu'r darpariaethau hyn yn frwd.

Gellir gweld natur ynysig a diffyg uchelgais Plaid Cymru yng ngwelliant 7 hefyd, sydd yn awgrymu bod y darpariaethau hyn ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru wedi eu gorfodi gan Senedd yn San Steffan sydd heb roi unrhyw sylw i amgylchiadau Cymru. Dwli llwyr yw hynny. Bu awdurdodau lleol yng Nghymru, am y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf yn arwain dadl ar draws y Deyrnas Unedig ynglŷn â rolau a strwythurau llywodraeth leol. Mae Plaid Cymru yn gwneud anghymwynas fawr â Chymru wrth roi darlun ohonom oll sydd ond yn

downtrodden. When I use the words passive, powerless and downtrodden, I am referring to you. You are limp anoraks shuffling aimlessly at the end of the railway platform.

In Wales we innovate, experiment and influence others in shaping our modern future. Welsh local government has realised for years that nineteenth-century structures do not fit modern purposes. In pretending that there was no executive leadership and that all decisions were made by all councillors, the old ways simply allowed leadership structures to be undeclared and unaccountable. Welsh local authorities experimented with the new principles and, by 1999, a majority already had executive-style structures in place. While the majority of English local authorities were defending their past, Welsh local government was promoting its future. It is important that we recognise that. I also ask you to reject Plaid Cymru's amendment 7 because it fails to recognise the capacity of the people of Wales to lead the rest of the United Kingdom on this issue.

I have sympathy with amendment 4. We need effective community leadership of local government. Whereas the amendment calls on local government to bring forward open and accessible structures to achieve that, the provisions that I propose to the Assembly will require local authorities to do so. I ask you to reject this Plaid Cymru amendment for being, in many ways, too timid.

I strongly support the objective of William Graham's amendment 5, which seeks to ensure openness and full access to information for all councillors and members of the public. The provisions before you will make Welsh local government more open than that of England. In Wales every executive will meet in public when it makes decisions. I have improved on the current arrangements by allowing an executive to meet in private with professional support when it deliberates, rather than when it makes decisions. There must be a record of all

adlewyrchiad ohoni hi ei hun: yn oddefol, yn ddi-rym ac yn orthrymedig. Atoch chi y cyfeiriau. Yr ydych yn anoracs llipa yn llusgo'ch traed yn ddibwrpas ar ben plattform rheilffordd.

Yng Nghymru, yr ydym yn arloesi, yn arbrofi ac yn dylanwadu ar eraill wrth lunio ein dyfodol modern. Mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi sylweddoli ers blyneddodded nad yw strwythurau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gweddu â dibenion yr oes fodern. Wrth gymryd arnom na fu arweinyddiaeth weithredol a bod pob penderfyniad yn cael ei wneud gan y cyngor cyfan, yr oedd yr hen ffordd o wneud pethau ond yn golygu bod strwythurau arweinyddiaeth heb eu datgan ac nad oeddent yn atebol. Arbrofodd awdurdodau lleol yng Nghymru â'r egwyddorion newydd ac, erbyn 1999, yr oedd y rhan fwyaf eisoes wedi sefydlu strwythurau ar ffurf gweithrediaeth. Tra bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn Lloegr yn amddiffyn eu gorffennol, yr oedd llywodraeth leol yng Nghymru yn hybu ei dyfodol. Mae'n bwysig inni gydnabod hynny. Gofynnaf ichi wrthod gwelliant 7 Plaid Cymru hefyd am nad yw'n cydnabod gallu pobl Cymru i arwain gweddill y Deyrnas Unedig ar y mater hwn.

Yr wyf yn deall gwelliant 4. Mae angen arweinyddiaeth effeithiol y gymuned ar lywodraeth leol. Er bod y gwelliant yn galw ar lywodraeth leol i gyflwyno strwythurau agored a hygyrch er mwyn cyflawni hynny, bydd y darpariaethau yr wyf yn eu cynnig i'r Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud hynny. Gofynnaf ichi wrthod y gwelliant hwn gan Plaid Cymru am ei fod, mewn sawl ystyr, yn rhy wngalon.

Cefnogaf amcan gwelliant 5 William Graham yn frwd. Mae'n ceisio sicrhau natur agored a mynediad llawn i wybodaeth ar gyfer pob cynghorydd ac aelod o'r cyhoedd. Bydd y darpariaethau ger eich bron yn sicrhau bod llywodraeth leol yng Nghymru yn fwy agored na llywodraeth leol yn Lloegr. Yng Nghymru, bydd pob gweithrediaeth yn cyfarfod yn gyhoeddus pan fydd yn gwneud penderfyniadau. Yr wyf wedi gwella'r trefniadau presennol drwy ganiatáu i weithrediaeth gyfarfod yn breifat gyda chymorth proffesiynol pan fydd yn ystyried

decisions and public access to all supporting documents. These provisions and the implementation of the Freedom of Information Act 2000 will ensure that no information currently available will be withheld, and further information will be available.

It is with reluctance that I ask you to reject William's amendment 5. It is simply because it would not allow for the necessary categories of exempt information relating to the personal circumstances of private individuals and employees, and commercially sensitive information on businesses. That is the only reason that I ask you to reject it. The guidance makes clear that when councillors need exempt information in the formal exercise of their scrutiny role, it should be made available confidentially. However, exempt information should not be available to all councillors on demand. Such distinctions are not always easy to make and I assure William that we will monitor and learn from practice in the further development of guidance on this issue, particularly in relation to commercially-sensitive information. I am sure that William will understand my points.

I support the objectives of William Graham's amendment 6, which seeks to ensure that opposition members chair scrutiny committees. Under the alternative arrangements, I was able to require that. Primary legislation prevents me from doing the same for all executive arrangements but the Welsh guidance specifically recommends this practice. I ask you to reject this amendment in recognition of the fact that I have done everything possible, but that I lack the legal powers to provide a regulation to this effect.

The success of a modern local authority will be measured by the extent to which it can effectively represent the diverse interests of local people. I have, therefore, appointed a commission to consider the electoral arrangements that will encourage a broader cross-section of people to become councillors

materion, yn hytrach na phan fydd yn gwneud penderfyniadau. Rhaid bod cofnod o bob penderfyniad a wnaethpwyd a rhaid bod modd i'r cyhoedd ddarllen pob dogfen ategol. Bydd y darpariaethau hyn ynghyd â gweithredu Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ei hatal, ac y bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Rhwng bodd ac anfodd gofynnaf ichi wrthod gwelliant 5 William, gan na fyddai'n caniatáu'r categorïau angenrheidiol o wybodaeth eithriedig mewn perthynas ag amgylchiadau personol unigolion preifat a chyflogeion, a gwybodaeth am fusnesau sydd yn fasnachol sensitif. Dyna'r unig reswm pam y gofynnaf ichi ei wrthod. Mae'r canllawiau yn egluro y dylai gwybodaeth eithriedig fod ar gael ar ffurf gyfrinachol i gynghorwyr pan fo ei hangen arnynt wrth ymgymryd yn ffurfiol â'u rôl o graffu. Fodd bynnag, ni ddylai gwybodaeth eithriedig fod ar gael i unrhyw gynghorydd ar gais. Nid yw'n hawdd bob amser gwahaniaethu yn y fath fodd a rhoddaf sicrwydd i William y byddwn yn monitro ac yn dysgu o brofiad wrth ddatblygu canllawiau ar y mater hwn ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â gwybodaeth sydd yn fasnachol sensitif. Yr wyf yn siŵr y bydd William yn deall y pwyntiau a wneuthum.

Cefnogaf amcanion gwelliant 6 William Graham, sydd yn ceisio sicrhau mai aelodau'r gwrthbleidiau sydd yn cadeirio pwyllgorau craffu. O dan y trefniadau amgen, gallwn fod wedi ei gwneud yn ofynnol. Mae deddfwriaeth sylfaenol yn fy atal rhag gwneud yr un peth ar gyfer holl drefniadau gweithrediaeth ond mae canllawiau Cymru yn argymhell yr arfer hwn yn benodol. Gofynnaf ichi wrthod y gwelliant hwn fel cydnabyddiaeth fy mod wedi gwneud popeth o fewn fy ngallu, ond nad oes gennyf y pwerau cyfreithiol i ddarparu rheoliad i weithredu hyn.

Llinyn mesur llwyddiant awdurdod lleol modern fydd i ba raddau y gall gynrychioli buddiannau amrywiol pobl leol yn effeithiol. Felly yr wyf wedi penodi comisiwn a fydd yn ystyried y trefniadau etholiadol er mwyn annog trawstoriad ehangach o bobl i ddod yn gynghorwyr a rhoi'r arweinyddiaeth a'r

and provide for the clear leadership and accountability that we need. Ron Davies's amendment 3 does not reflect the terms of reference of that commission, which will consider different forms of proportional representation only as a part of its far wider remit.

I have encouraged everyone in local government, including the Welsh Local Government Association, to express their views as fully as possible to this commission. Ron's amendment seems to suggest that we should consult the WLGA ahead of any other interest in this matter. That would be inappropriate. The WLGA would not expect or desire such a narrow form of public debate; it is confident of its ability to influence the commission and public opinion in Wales. I therefore ask you to reject this amendment.

These provisions reflect the innovative capacities of the Welsh people as they recreate their local government to fit modern purposes. The provisions will strengthen local communities. I ask the Assembly to support the motion.

Janet Ryder: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 1: delete 'welcomes' in line 1 and replace with 'notes'.

I propose amendment 2. Delete all after 'management' in point 1, and replace with:

noting that the aim of this Bill is to produce greater transparency and accountability in local government.

I propose amendment 4. Add as new point 2 and renumber remaining point accordingly:

2. calls on local government to bring forward those open and accessible structures which will restore confidence in local government and enable it to be the leader of its community, governing locally.

I propose amendment 7. Add at the end of motion as a new point:

expresses concern that yet again we have to

atebolrwydd clir sydd eu hangen arnom. Nid yw gwelliant 3 Ron Davies yn adlewyrchu cylch gorchwyl y comisiwn hwnnw, a fydd ond yn ystyried gwahanol fathau o gynrychiolaeth gyfrannol fel rhan o'i gylch gwaith llawer ehangach.

Anogais bawb o fewn llywodraeth leol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i wneud sylwadau mor llawn â phosibl i'r comisiwn hwn. Ymddengys i mi fod gwelliant Ron yn awgrymu y dylem ymgynghori â CLILC ar y mater hwn cyn unrhyw un arall sydd â diddordeb. Byddai hynny'n amhriodol. Ni fyddai CLILC yn disgwyl nac yn dymuno dadl gyhoeddus mor gul â hynny; mae'n ymddiried yn ei gallu i ddylanwadu ar y comisiwn a barn y cyhoedd yng Nghymru. Felly gofynnaf ichi wrthod y gwelliant hwn.

Y mae'r darpariaethau hyn yn adlewyrchu gallu pobl Cymru i arloesi wrth iddynt ail-greu eu llywodraeth leol i gydweddu â dibenion yr oes gyfoes. Bydd y darpariaethau yn cryfhau cymunedau lleol. Gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi'r cynnig.

Janet Ryder: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 1: dileer 'croesawu' yn llinell 1 a rhoi 'nodi' yn ei le.

Cynigiau welliant 2. Dileer popeth ar ôl 'gwleidyddol' ym mhwynt 1 a rhoi yn ei le:

gan nodi mai nod y Mesur hwn yw darparu llywodraeth leol fwy tryloyw ac atebol.

Cynigiau welliant 4. Ychwaneger fel pwynt 2 newydd ac ailrifo'r pwynt olaf yn unol â hynny:

2. yn galw ar lywodraeth leol i gyflwyno'r strwythurau agored a hygyrch hyn a fydd yn adfer ffydd mewn llywodraeth leol a'i galluogi i fod yn arweinydd i'w chymuned, gan lywodraethu'n lleol.

Cynigiau welliant 7. Ychwaneger fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn mynegi pryder ein bod unwaith eto yn

accept legislation drafted for England that is unsuitable for Wales, and regrets the lack of power to form our own legislation that addresses the unique needs of Wales.

We must have said some amazing things given all those attacks and that the Minister was so much on the defensive.

We have discussed the Local Government Act 2000 for well over a year. It is wide ranging and will completely change the shape of local government. However, many councillors feel that change has been imposed by the Labour Westminster Government and that it is telling them how to run their councils. It has been perceived as disenfranchising some councillors, and the structures recommended are being compared with other elected bodies. The Westminster and Assembly Cabinets meet behind closed doors, yet we demand that local government cabinets meet in public. Russell Goodway has already commented that this will mean that the ruling groups will meet beforehand to agree on the decisions to be taken.

Perhaps it would be pertinent to consider why the Labour Government in Westminster has been determined to drive this through. Is that determination based on a desire to make councils relevant to the twenty-first century in their way of working and to make them more accessible and accountable to the public, or is it based on its distrust of local government? That distrust, as is the case with many of Labour's other policies and actions, was inherited from the previous Tory Government.

The Local Government Act 2000 is shaped to streamline structures and combat the corruption that gave local government such a bad reputation in England, not in Wales. However, I am sure that my Plaid Cymru colleagues on Rhondda Cynon Taff County Borough Council would have something to say about the state of accounts when they took over from a Labour-held authority. That council has since turned a £5 million deficit into a surplus, while continuing to deliver

gorfod derbyn deddfwriaeth a gafodd ei drafftio ar gyfer Lloegr ac sydd yn anaddas i Gymru, ac yn gresynu at y diffyg grym i ffurfio'n deddfwriaeth ein hunain sydd yn mynd i'r afael ag anghenion unigryw Cymru.

Rhaid ein bod wedi dweud pethau hynod o ystyried yr holl ymosodiadau hynny a'r ffaith bod y Gweinidog mor amddiffynnol.

Buom yn trafod Deddf Llywodraeth Leol 2000 ers ymhell dros flwyddyn erbyn hyn. Mae'n eang ei chwmpas a bydd yn trawsnewid ffurf llywodraeth leol. Fodd bynnag, teimla llawer o gynghorwyr iddi gael ei gorfodi arnynt gan y Llywodraeth Lafur yn San Steffan, a'i bod yn dweud wrthynt sut y dylent reoli eu cynghorau. Mae teimlad ei bod yn difreinio rhai cynghorwyr, a chaiff y strwythurau a argymhellwyd eu cymharu â chyrff etholedig eraill. Mae Cabinet San Steffan a Chabinet y Cynulliad yn cyfarfod y tu ôl i ddrysau caeedig, ond eto yr ydym yn mynnu bod cabinetau llywodraeth leol yn cyfarfod yn gyhoeddus. Mae Russell Goodway eisoes wedi nodi y golyga hyn y bydd y grwpiau mewn grym yn cyfarfod ymlaen llaw i gytuno ar y penderfyniadau i'w gwneud.

Efallai y byddai'n berthnasol ystyried pam bod y Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi bod mor benderfynol o gyflwyno hyn. A yw'r penderfyniad hwnnw yn seiliedig ar ddymuniad i sicrhau bod cynghorau yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain yn eu ffordd o weithio ac yn eu gwneud yn fwy hygyrch ac yn atebol i'r cyhoedd, neu a yw'n seiliedig ar ddiffyg ymddiriedaeth mewn llywodraeth leol? Etifeddwyd y diffyg ymddiriedaeth hwnnw, fel yn achos llawer o bolisiau a gweithredoedd eraill Llafur, gan y Llywodraeth Doriaidd flaenorol.

Llunnir Deddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn symleiddio strwythurau a gwrthsefyll y llygredd a roddodd enw mor wael i lywodraeth leol yn Lloegr, nid yng Nghymru. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddai gan fy nghyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf rywbeth i'w ddweud am gyflwr y cyfrifon pan gymerasant yr awenau mewn awdurdod a reolwyd gynt gan Lafur. Mae'r cyngor hwnnw bellach wedi troi diffyg o £5 miliwn

good quality services.

This Act has come about because of the Labour Party's deep unhappiness with local government. There was also a desire to modernise the town halls and council chambers and their way of working and to try to produce a system that is relevant to the twenty-first century. There is a need for quick decisions and clear lines of accountability, and for members of the public to know who has responsibility for services within their councils. Such people must also be easily accessible. There is also a need to change public perception. The general public feels increasingly distanced and remote from local government, which should be its closest form of government. We must restore the public's faith in its town halls and give it the feeling that it has some control over the decisions being taken there. An interest in local government needs to be sparked again.

Geraint Davies: I declare an interest as a member of Rhondda Cynon Taff County Borough Council.

Will you join me in congratulating Rhondda Cynon Taff council for opening up government? Last night, it held its first open cabinet meeting. That will open up government for the people of that area. Is that not an example that other institutions, perhaps this one, should follow in terms of opening up their cabinets for scrutiny and making them public?

Janet Ryder: I agree. Rhondda Cynon Taff council should be applauded for all its achievements.

3:40 p.m.

To return to the Act, we need to rekindle an interest in local government to dispel the feeling that the local council is just some government body that does things to communities regardless of what the community wants. All of those were driving forces behind the Act, but they were also a great slur on the many councillors who have worked for their communities for many

yn warged, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.

Cyflwynwyd y Ddeddf hon oherwydd yr anfdolnwydd mawr o fewn y Blaid Lafur ynglŷn â llywodraeth leol. Bu awydd hefyd i foderneiddio neuaddau sir a siambrau cynghorau a'u ffordd o weithio ac i geisio llunio system sydd yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain. Mae angen penderfyniadau cyflym ac atebolrwydd clir, ac mae angen i aelodau'r cyhoedd wybod pwy sydd yn gyfrifol am wasanaethau o fewn eu cynghorau. Rhaid i'r bobl hynny hefyd fod yn hygyrch iawn. Mae angen newid y canfyddiad ymhlith y cyhoedd hefyd. Teimla'r cyhoedd eu bod yn pellhau fwy fwy oddi wrth lywodraeth leol, a ddylai fod y math agosaf o lywodraeth i'r cyhoedd. Rhaid inni adfer ffydd y cyhoedd yn ei neuaddau tref a darbwylllo pobl fod ganddynt rywfaint o reolaeth dros y penderfyniadau a wneir yno. Mae angen ennyn diddordeb mewn llywodraeth leol unwaith eto.

Geraint Davies: Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

A ymunwch â mi i longyfarch cyngor Rhondda Cynon Taf am gyflwyno llywodraeth leol fwy agored? Neithiwr, cynhaliodd gyfarfod agored o'r cabinet am y tro cyntaf. Bydd hynny yn rhoi llywodraeth fwy agored i bobl yr ardal honno. Onid yw hynny'n esiampl y dylai sefydliadau eraill, fel y sefydliad hwn o bosibl, ei dilyn o ran sicrhau bod eu cabinetau yn fwy agored i broses graffu ac yn gweithredu'n gyhoeddus?

Janet Ryder: Cytunaf. Dylid canmol cyngor Rhondda Cynon Taf am ei holl gyflawniadau.

Gan ddychwelyd at y Ddeddf, mae angen inni ailennyn diddordeb mewn llywodraeth leol er mwyn cael gwared ar y teimlad bod y cyngor lleol yn rhyw fath o gorff llywodraethol sydd yn gwneud pethau i gymunedau waeth beth fo'r dymuniadau lleol. Llywiwyd y Ddeddf hon gan bob un o'r ffactorau hynny, ond yr oeddent hefyd yn sarhad mawr i lawer o gynghorwyr a fu'n gweithio dros eu

years, who have put in endless hours of unpaid work and have been dedicated to their communities. The few rotten apples in the barrel have sullied their good work. If we had the primary powers that the Assembly needs so much, would we have shaped the legislation in this way? That is debatable. There has always been a different ethos to local government in Wales. Certainly, since 1995, with the introduction of unitary councils there has been a different system. It is, therefore, a great shame that we have not been able to influence this Act in any way as there are now the infamous clauses 5 and 6, which split the power to amend or change different plans between the Assembly and the Secretary of State, totally against the wishes of the Assembly. The inclusion of elected mayors as a form of government also goes against the wishes of the majority of the Assembly. Prescriptive systems have been imposed, cabinets and scrutiny committees, with no allowances for authorities to develop systems of government that suit their areas. No allowance was made, even on the numbers included in the cabinet, not until, that is, the fourth way came along. Much was made of this fourth way.

David Melding: Do you intend to give any guidance at all to local government, or will it be a free-for-all in which they can come up with anything *ex nihilo* as they wish?

Janet Ryder: If we approve this today, we will have all the guidance. What we are saying is that we must examine what has gone through and consider the fourth option that was drawn up. It was going to give councils the option of keeping a modified committee structure. No wonder there was great anticipation of this alternative way. It was heralded in the partnership agreement, but when it was revealed it was little more than a cabinet system in disguise, giving an allowance for a slightly larger cabinet, which has suited some areas. You have to ask: when is a fourth option not a fourth option? It is when it is crafted by a Liberal Democrat.

There have been calls to turn back the tide. That would be unfair to local government

cymunedau ers blynyddoedd lawer, sydd wedi gwneud oriau di-rif o waith yn ddi-dâl ac a fu'n ymrwymedig i'w cymunedau. Mae'r ychydig rai llwgr wedi difwyno eu holl waith da. Pe bai gennym y pwerau sylfaenol sydd eu hangen yn ddybryd ar y Cynulliad, a fyddem wedi llunio'r ddeddfwriaeth yn y fath fodd? Go brin. Yr oedd gan lywodraeth leol yng Nghymru ethos gwahanol erioed. Yn sicr, ers 1995, ar ôl cyflwyno cynghorau unedol cafwyd system wahanol. Felly mae'n drueni mawr nad oeddem yn gallu dylanwadu ar y Ddeddf hon o gwbl gan fod gennym bellach y cymalau 5 a 6 bondigrybwyll sydd yn rhannu'r pŵer i ddiwygio neu newid cynlluniau gwahanol rhwng y Cynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hynny'n gwbl groes i ewyllys y Cynulliad. Mae cynnwys meiri etholedig fel math o lywodraeth hefyd yn groes i ewyllys y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad. Gorfodwyd systemau cyfarwyddol, sef cabinetau a phwyllgorau craffu, heb roi cyfle i awdurdodau ddatblygu systemau o lywodraeth sydd yn gydnaws â'u hardaloedd. Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth hyd yn oed i nifer yr aelodau i'w cynnwys yn y cabinet, hynny yw, tan inni gael y bedwaredd ffordd, y bu cymaint o sôn amdani.

David Melding: A fwriadwch roi unrhyw ganllawiau o gwbl i lywodraeth leol, neu a fydd pawb â llaw rydd i lunio unrhyw beth a fynnont o ddim?

Janet Ryder: Os derbyniwn hyn heddiw, bydd gennym bob canllaw posibl. Yr hyn yr ydym yn ei ddweud yw bod yn rhaid inni ystyried yr hyn sydd wedi digwydd ac ystyried y pedwerydd opsiwn a luniwyd. Y bwriad oedd rhoi opsiwn i'r cynghorau gadw strwythur pwyllgorau diwygiedig. Nid oes ryfedd bod cryn ddisgwyliad am y ffordd amgen hon. Fe'i cyhoeddwyd yn y cytundeb partneriaeth, ond pan gafodd ei datgelu nid oedd fawr mwy na system gabinet ar wedd newydd, gan ganiatáu cabinet ychydig yn fwy, a fu'n addas i rai ardaloedd. Rhaid gofyn y cwestiwn: pryd na fydd pedwerydd opsiwn yn bedwerydd opsiwn? Yr ateb yw, pan gaiff ei lunio gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol.

Bu galw am droi'r cloc yn ôl. Byddai hynny'n annheg i awdurdodau llywodraeth

authorities, many of which have taken up that option. Despite the structures imposed on it, it is making good work of it. There are some good examples of councils that are working well within these measures. However, some authorities are already saying that their scrutiny committees are not working. The leader of Denbighshire County Council reported to Rhuthin Town Council only a few weeks ago that the scrutiny committees in that council, according to him, are not working. That is a worrying situation. If those committees do not work, who will hold the cabinet to account? I should, of course, have declared an interest at the beginning. I am a member of Rhuthin council.

Syniad has done much good work. Councillors have received a lot of training, but they still have a long way to go to learn their new role. Through this system it will be necessary to encourage more people to take an interest in local government by standing for election. However, before we can do that, the general public has to be clear about what it expects from its councillors.

We have to admit that a tension exists between the Assembly and local government. Despite the joint work going on in the partnership council, we have not yet had an open and public discussion on the split of responsibilities between the Assembly and local government in terms of delivery of services. That debate needs to take place. This could perhaps be the start of that. However, once that is debated and decided upon, local government should be allowed to remain accountable to the people who elect it and who will be the ultimate judges of it. We should have confidence in local government, David, under whatever system it chooses—it has been elected locally to govern in that area—to take the decisions that it has developed with its communities and for its communities. The Assembly should allow it to govern locally by providing it with adequate funding and the freedom to do that.

William Graham: I propose amendment 5. Add as a new point:

leol, y mae llawer ohonynt wedi dewis yr opsiwn hwnnw. Er gwaethaf y strwythurau a orfodwyd arnynt, maent yn rhoi cynnig teg arni. Mae rhai enghreifftiau da o gynghorau sydd yn gweithio'n dda o fewn y mesurau hyn. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau eisoes yn dweud nad yw eu pwyllgorau craffu yn gweithio. Dywedodd arweinydd Cyngor Sir Dinbych wrth Gyngor Tref Rhuthun dim ond ychydig wythnosau yn ôl nad oedd pwyllgorau craffu'r cyngor hwnnw yn gweithio, yn ei farn ef. Mae honno'n sefyllfa bryderus. Os na fydd y pwyllgorau hynny'n gweithio, i bwy fydd y cabinet yn atebol? Dylwn, wrth gwrs, fod wedi datgan buddiant ar y dechrau. Yr wyf yn aelod o gyngor Rhuthun.

Y mae Syniad wedi gwneud llawer o waith da. Rhoddwyd llawer o hyfforddiant i gynghorwyr, ond mae tipyn o ffordd i fynd o hyd o ran dysgu am eu rôl newydd. Drwy'r system hon bydd angen annog mwy o bobl i ymddiddori mewn llywodraeth leol drwy ymgynnig fel ymgeiswyr. Fodd bynnag, cyn inni allu gwneud hynny, rhaid i'r cyhoedd fod yn eglur ynglŷn â'r hyn a ddisgwyliar gan gynghorwyr.

Rhaid inni gydnabod bod tyndra rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol. Er gwaethaf y cydweithio a geir yn y cyngor partneriaeth, nid ydym wedi cael trafodaeth agored a chyhoeddus ynglŷn â'r cynnig i rannu cyfrifoldebau rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol dros ddarparu gwasanaethau. Mae angen i'r ddadl hon fynd rhagddi. Efallai y gallai hyn fod yn fan cychwyn yn hynny o beth. Fodd bynnag, unwaith y bydd dadl a phenderfyniad ar y mater hwn, dylid gadael i lywodraeth leol barhau i fod yn atebol i'r bobl a'i etholwyd ac a fydd yn ei barnu yn y pen draw. Dylem roi ffydd mewn llywodraeth leol, David, pa system bynnag y mae yn ei dewis—mae wedi'i hethol yn lleol i lywodraethu yn yr ardal honno—i wneud y penderfyniadau a ddatblygodd ar y cyd â'i chymunedau a thros ei chymunedau. Dylai'r Cynulliad adael iddi lywodraethu'n lleol drwy roi digon o arian iddi a'r rhyddid i wneud hynny.

William Graham: Cynigiau welliant 5. Ychwaneger fel pwynt newydd:

asks the Minister to clarify in the form of guidance, that within the Local Authorities (Executive Arrangements) (Decisions, Documents and Meetings) (Wales) Regulations 2001, all records and support documents should be made available, upon request, to all elected members of a council or authority as of right by their membership of that council or authority.

I propose amendment 6. Add as a new point:

regrets the lack of specification that opposition council members should chair scrutiny committees, and calls upon the Minister for Finance, Local Government and Communities to introduce this stipulation at the first opportunity.

I declare an interest as a member of Newport Borough County Council. I ask for your guidance, Presiding Officer. On the analogy made by the Minister regarding trainspotters, is 'anorak' a derogatory term in Welsh for Liberal Democrats, or not?

The Presiding Officer: I believe that the word 'anorak' is neither Welsh nor English in origin, but refers to a garment.

William Graham: The Welsh Conservative group notes the provisions of the Assembly Local Government 'Bill'. We welcome these measures, which would lead to greater transparency and accountability. However, they will not do so in their present form.

We expect the Liberal Democrat/Labour administration to vigorously pursue the strict application of all the measures that will ensure this greater transparency and accountability in local authorities. We are grateful to acknowledge the attempts by the Minister for Finance, Local Government and Communities to implement the consultation that was taken on board.

The administration's full support for these measures will be demonstrated by the vigour with which they oversee their introduction throughout the local authorities in Wales and

yn gofyn i'r Gweinidog grisialu ar ffurf canllawiau, y dylai'r holl gofnodion a dogfennau ategol, o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001, fod ar gael i holl aelodau etholedig cyngor neu awdurdod os byddant yn gwneud cais amdanynt, a hynny fel mater o hawl yn sgîl eu haelodaeth o'r cyngor neu'r awdurdod hwnnw.

Cynigïaf welliant 6. Ychwaneger fel pwynt newydd:

yn gresynu at y ffaith na nodir y dylai aelodau'r wrthblaid yn y cyngor gadeirio pwyllgorau craffu, ac yn galw ar y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i gyflwyno'r amod hwn ar y cyfle cyntaf.

Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd. Gofynnaf am eich arweiniad, Lywydd. Ynglŷn â'r gymhariaeth a dynnodd y Gweinidog mewn perthynas â phobl sydd yn gwyllo trenau, ai term dirmygus yn Gymraeg am Ddemocratiaid Rhyddfrydol yw 'anorac'?

Y Llywydd: Credaf nad Cymraeg na Saesneg yw tarddiad y gair 'anorac' ond ei fod yn cyfeirio at ddilledyn.

William Graham: Noda grŵp Ceidwadwyr Cymru ddarpariaethau 'Mesur' Llywodraeth Leol y Cynulliad. Croesawn y mesurau hyn, a fyddai'n arwain at lywodraeth leol fwy tryloyw ac atebol. Fodd bynnag, ni wnânt hynny ar eu ffurf bresennol.

Disgwylwn i weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur fynnu cymhwyso'n llym bob un o'r mesurau a fydd yn sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn awdurdodau lleol. Yr ydym yn falch o gydnabod ymgais y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i weithredu'r ymgynghoriad a ystyriwyd.

Caiff cefnogaeth lawn y weinyddiaeth i'r mesurau hyn ei chyfleu gan yr egni a amlyga wrth oruchwylio'r broses o'u cyflwyno ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru

not by their words of expectation.

We require the administration to lead the way forward by ensuring that everyone is provided with the full information on all the effects that these changes will introduce. For example, the way in which they are governed at local authority level; the executive and political structure that will take over the control of providing services; the requirement for a referendum to approve the introduction of some of these executive and political structures; the regulations that empower the electorate to petition for a referendum; the channels through which they have access to information; the support documents and the records of decisions made by local authorities; and that the certain exemptions to local authority executives meeting in public are specific and regularly reviewed, to ensure the greatest transparency and accountability. Once again, we are grateful to the Minister for her undertakings on this matter.

In bringing about these changes to the structure of local authorities, we need to improve the image of local councils. Too many of the electorate do not respect local councils. Therefore, we welcome the attempt by the administration to take the lead in making this information available and not simply to pass the baton of responsibility on to local authorities. The administration must ensure that the complete information is made available to all electors and other interested parties on all options available to local authorities. Local authorities must be directed to explain the reason behind the option that they seek to introduce, together with the efficiencies and savings that their chosen option will deliver. In Wales, we are famous for choirs and committees. I am not sure how we will function in local government in the future.

We welcome the measures that seek to deliver a greater transparency. We would be remiss if we failed to draw attention to the instances where these proposals do not deliver that aim. An example of this is outlined in amendment 5, which asks the Minister to give credence, in the form of

ac nid drwy eu geiriau disgwylgar.

Gofynnwn i'r weinyddiaeth gymryd yr awenau drwy sicrhau y caiff pawb wybodaeth lawn am bob un o'r effeithiau a ddaw yn sgîl cyflwyno'r newidiadau hyn. Er enghraifft, y ffordd y cânt eu llywodraethu ar lefel yr awdurdod lleol; y weithrediaeth a'r strwythur gwleidyddol a fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau; y gofyniad i gynnal refferendwm i gymeradwyo cynnig i gyflwyno rhai o'r strwythurau gweithredol a gwleidyddol hyn; y rheoliadau sydd yn rhoi pŵer i etholwyr wneud cais am refferendwm; y sianeli y gall pobl eu defnyddio i gael gwybodaeth; y dogfennau ategol a'r cofnodion am benderfyniadau a wnaethpwyd gan awdurdodau lleol; a bod yr eithriadau penodol i weithrediadau awdurdodau lleol gyfarfod yn gyhoeddus yn benodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, er mwyn sicrhau llywodraeth leol fwy tryloyw ac atebol. Unwaith eto, yr ydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hymgymeriadau ynglŷn â'r mater hwn.

Wrth newid strwythur awdurdodau lleol yn y fath fodd, mae angen inni wella delwedd cynghorau lleol. Mae gormod o etholwyr nad oes ganddynt unrhyw barch tuag at gynghorau lleol. Felly, croesawn ymgais y weinyddiaeth i gymryd yr awenau i sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael ac i beidio â disgwyl i awdurdodau lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Rhaid i'r weinyddiaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael i bob etholwr a phawb arall â diddordeb ynglŷn â'r holl opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol. Rhaid cyfarwyddo awdurdodau lleol i egluro'r rheswm y tu ôl i'r opsiwn yr hoffent ei gyflwyno, ynghyd â'r effeithlonrwydd a'r arbedion y bydd yr opsiwn a ddewiswyd ganddynt yn eu darparu. Yng Nghymru, yr ydym yn enwog am ein corau a'n pwyllgorau. Nid wyf yn siŵr sut y byddwn yn gweithredu mewn llywodraeth leol yn y dyfodol.

Croesawn y mesurau sydd â'r nod o ddarparu llywodraeth leol fwy tryloyw. Byddem yn esgeulus pe na baem yn tynnu sylw at yr achosion lle nad yw'r cynigion hyn yn cyrraedd y nod hwnnw. Nodwyd enghraifft o'r fath yng ngwelliant 5, sydd yn gofyn i'r Gweinidog roi coel, ar ffurf canllawiau, ar y

guidance, to the idea that all records and support documents should be made available, upon request, to all elected members of a council or authority as of right by their membership of that council or authority.

That measure must be introduced, as there is no alternative provision to allow a member to progress or take up issues that affect the interests of their electorate. This barrier to transparency and to allowing our local authorities to be fully accountable, must be removed. I propose amendment 5 in order to give elected members the power to be able to pursue every issue brought to them by their electors.

The Conservative group has reservations concerning the various modes of executive model described by the Assembly Local Government 'Bill', and their effectiveness in achieving the efficient modernisation of local government constitutions and political management structures. The loss of the committee structure requires a far-reaching information campaign to ensure, as I have already mentioned, that everyone fully understands the management structure that their council chooses to adopt.

Many Labour councillors share these reservations. I quote from one.

'I really do not think it is working as a democratic process. With this system the decision making process is left to a few people, i.e. the cabinet members. Even cabinet members, as I was, were only able to speak on issues relevant to the portfolios they hold.'

An aspiring Labour MP and Lord Mayor of our capital city has stated that the decision to hold cabinet meetings in public will mean that the discussions and the decisions will be made at a party meeting on a Monday night, not in the cabinet meeting on Tuesday morning. That is a truly retrograde step.

The reservations held by the Welsh Conservative group are shared by many Labour councillors, and so many of our senior local government managers, that there are genuine fears of a reduction in recruitment of local authority officers.

We are unable to support the measures as

syniad y dylai'r holl gofnodion a'r dogfennau ategol fod ar gael, ar gais, i aelodau etholedig cyngor neu awdurdod fel un o'u hawliau fel aelodau o'r cyngor neu'r awdurdod hwnnw.

Rhaid cyflwyno'r mesur hwnnw, gan nad oes unrhyw ddarpariaeth arall sydd yn galluogi aelodau i godi neu fynd ar drywydd materion sydd yn effeithio ar fuddiannau eu hetholwyr. Rhaid dileu'r rhwystr hwn i lywodraeth leol dryloyw ac i alluogi ein hawdurdodau lleol i ddod yn gwbl atebol. Cynigïaf welliant 5 er mwyn rhoi'r pŵer i'r aelodau etholedig allu mynd ar drywydd pob mater a ddygir i'w sylw gan eu hetholwyr.

Mae gan grŵp y Ceidwadwyr amheun ynglŷn â'r amrywiol fodelau o weithrediaeth a ddisgrifir ym 'Mesur' Llywodraeth Leol y Cynulliad, a'u heffeithiolrwydd o ran cyflawni'r broses o foderneiddio sefydliadau llywodraeth leol a strwythurau rheoli gwleidyddol yn effeithlon. Mae colli strwythur pwyllgorau yn gofyn am ymgyrch wybodaeth eang iawn er mwyn sicrhau, fel y crybwyllais eisoes, fod pawb yn deall yn llawn y strwythur rheoli y mae'r cyngor am ei fabwysiadu.

Mae gan lawer o gynghorwyr Llafur yr un amheun. Dyfynnaf un ohonynt.

Nododd darpar AS Llafur ac Arglwydd Faer ein prifddinas y bydd y penderfyniad i gynnal cyfarfodydd y cabinet yn gyhoeddus yn golygu y bydd y trafodaethau yn cael eu cynnal ac y caiff y penderfyniadau eu gwneud mewn cyfarfod o'r blaidd ar nos Lun, yn hytrach nag yng nghyfarfod y cabinet fore dydd Mawrth. Mae hynny'n sicr yn gam yn ôl.

Mae amheun grŵp Ceidwadwyr Cymru wedi'u rhannu gan lawer o gynghorwyr Llafur, a chymaint o uwch-reolwyr llywodraeth leol, fel bod ofnau gwirioneddol y bydd gostyngiad yn nifer y swyddogion a gaiff eu recriwtio mewn awdurdodau lleol.

Ni allwn gefnogi'r mesurau a gynigir gan y

proposed in their present form by the coalition today.

The Presiding Officer: Before William Graham sits down, I am pleased to inform him that, having taken linguistic advice, the anorak is a hooded garment. The word comes from the Eskimo language in Greenland.

Ron Davies: I propose amendment 3. Add at the end of point 1:

and believing in the spirit of accountability, democracy and inclusivity, the National Assembly for Wales instructs the commission established to examine different forms of proportional representation for local government to first consult with the Welsh Local Government Association and report its findings to the National Assembly for Wales before proceeding with any further aspects of its review.

I tabled this amendment, arising directly from the decision of the Executive to establish a commission that would consider, among other things, the issue of proportional representation in local councils. The purpose of my amendment is twofold. First, it requires the commission to seek the views of the representative body of Welsh local government, the Welsh Local Government Association. Secondly, it requires the commission to report back to the National Assembly on that consultation before it proceeds with any further work. As things currently stand, there is no guarantee that local government will be included in the review process or that due weight will be given to its proper interests. Furthermore, there is no guarantee that this Assembly will be afforded the opportunity of even debating the issue, neither is there a guarantee that the Commission or Executive will be accountable, as they should be, to this Assembly.

3:50 p.m.

I said that my amendment sought to achieve two purposes. I will deal with each in turn. The first is to consult with Welsh local government, which is hardly a radical

glymblaid heddiw ar eu ffurf bresennol.

Y Llywydd: Cyn i William Graham eistedd i lawr, mae'n dda gennyf ei hysbysu, wedi cael cyngor ieithyddol, mai dilledyn â chwfl yw anorac. Tardda'r gair o Esgimöeg yr Ynys Las.

Ron Davies: Cynigiad welliant 3. Ychwaneger ar ddiwedd pwynt 1:

a, chan gredu yn ysbryd atebolrwydd, democratiaeth a chynhwysiant, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i'r comisiwn a sefydlwyd i ymchwilio i'r gwahanol ffurfiau o gynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer llywodraeth leol ymgynghori'n gyntaf â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhoi adroddiad o'i ddarganfyddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn symud ymlaen ag unrhyw agwedd ar ei adolygiad.

Cyflwynais y gwelliant hwn, sydd yn deillio'n uniongyrchol o benderfyniad yr Weithrediaeth i sefydlu comisiwn a fyddai'n ystyried, ymhlith pethau eraill, gynrychiolaeth gyfrannol mewn cynghorau lleol. Mae i'm gwelliant ddau ddiben. Yn gyntaf, mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r comisiwn geisio barn corff cynrychioliadol llywodraeth leol yng Nghymru, sef Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ail, mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r comisiwn gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar yr ymgynghoriad hwnnw cyn ymgymryd ag unrhyw waith pellach. Fel y saif pethau ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sicrwydd y caiff llywodraeth leol ei chynnwys yn y broses adolygu, na sicrwydd y caiff ystyriaeth briodol ei rhoi i'w phriod fuddiannau. At hynny, nid oes unrhyw sicrwydd y caiff y Cynulliad hwn unrhyw gyfle hyd yn oed i gynnal dadl ar y mater hwn. Nid oes sicrwydd ychwaith y bydd y Comisiwn na'r Weithrediaeth yn atebol, fel y dylent fod, i'r Cynulliad hwn.

Dywedais i'm gwelliant geisio cyflawni dau nod. Trafodaf y naill a'r llall yn eu tro. Y nod cyntaf yw ymgynghori â llywodraeth leol Cymru. Go brin bod hynny'n awgrym

proposition. It seems to me an entirely reasonable suggestion that that should be a necessary first step. It is not as if there has been hitherto a widespread and informed debate about proportionality. I am not opposed to proportionality in principle, but there are widespread implications for the link between councillors and their communities, effective decision-making and for the direct accountability of councillors and councils to the people and communities that they serve. To my knowledge, no widespread demand for any change to proportionality has been manifested in Welsh public opinion. There may be a few fringe groups with direct vested interests who argue the case. However, there is no evidence of any wider interest and from my research, most informed local government opinion is firmly against change.

It is important that we involve local government from the outset, if we are considering such a radical change. It is our natural and equal partner—we should treat it as such. Many local government leaders supported devolution despite their misgivings that a National Assembly would take power away from town halls rather than passing it down from Whitehall. They were promised that that would not be the case; they were promised partnership. If we renege on those promises now, they will rightly regard it as a stab in the back.

I looked closely at the Commission that has been established. No doubt, there are many able, distinguished and eminent people sitting on it—nine of them in all. I was interested to read their curriculum vitae to discover what type of people they were. I discovered that they had two things in common. First, none of them has sat as an elected member of a local council and secondly, as far as I can see, none of them has stood for any public office. I hardly think that that disinterest in the democratic process qualifies them to sit on a Commission adjudicating other people's democracy.

I am told that, in colonial times, there was a common saying among development

radical. Ymddengys i mi mai cwbl resymol yw'r awgrym y dylai hynny fod yn gam cyntaf angenrheidiol. Nid yw fel pe bai dadl eang a hyddysg ar gyfranoldeb wedi cael ei chynnal hyd yma. Nid wyf yn gwrthwynebu cyfranoldeb mewn egwyddor, ond mae goblygiadau eang i'r cyswllt rhwng cynghorwyr a'u cymunedau, i'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol ac i atebolrwydd uniongyrchol cynghorwyr a chynghorau i'r bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Hyd y gwn i, ni fu galw mawr am unrhyw newid i gyfranoldeb ymhlith y cyhoedd yng Nghymru. Efallai bod ambell grŵp ymylol sydd â buddiannau uniongyrchol yn dadlau drosto. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o unrhyw ddiddordeb ehangach ac yn ôl fy ymchwil i, mae'r rhan fwyaf o bobl â barn hyddysg o fewn llywodraeth leol yn bendant yn erbyn y newid.

Mae'n bwysig inni gynnwys llywodraeth leol o'r cychwyn, os ydym am ystyried newid radical o'r fath. Llywodraeth leol yw ein partner naturiol a chyfartal—dylem ei thrin felly. Bu llawer o arweinwyr llywodraeth leol yn cefnogi datganoli er gwaethaf eu hamheuon y byddai Cynulliad Cenedlaethol yn mynd â phŵer o'r neuaddau tref yn hytrach na'i drosglwyddo o San Steffan. Rhoddwyd addewid iddynt na fyddai hynny'n digwydd; rhoddwyd addewid y byddai partneriaeth. Os torrwn yr addewidion hynny yn awr, byddant yn ystyried, a hynny'n gwbl deg, eu bod wedi cael cam.

Edrychais yn fanwl ar y Comisiwn a sefydlwyd. Heb amheuaeth, mae llawer o bobl alluog, nodedig a blaenllaw yn aelodau ohono—naw i gyd. Yr oedd yn ddiddorol darllen eu curriculum vitae a chanfod pa fath o bobl oeddent. Canfûm fod dau beth yn gyffredin iddynt. Yn gyntaf, nid oedd yr un ohonynt wedi bod yn aelod etholedig o gyngor lleol ac yn ail, hyd y gwelaf, ni fu'r un ohonynt yn ymgynnig am unrhyw swydd gyhoeddus. Yn fy marn i, go brin bod y diffyg diddordeb hwn yn y broses ddemocrataidd yn eu gwneud yn gymwys i fod yn aelodau o Gomisiwn sydd yn barnu democratiaeth pobl eraill.

Dywedwyd wrthyf fod dywedriad cyffredin ymhlith peirianwyr datblygu yng nghyfnod yr

engineers, namely that

ymerodraeth, sef

‘there is no point in consulting the frogs when you are about to drain the swamp.’

That attitude is alive and well. If Assembly Members have any doubts about how local government feels about this review, ask yourselves this one question, how would you feel as an elected Member of the National Assembly for Wales if central Government decided on a review of your own electoral arrangement without consulting you in advance, without your knowledge or prior agreement and without involving you in the process itself? I know how I would feel and I think therefore that I know how local government now feels.

My second point is equally straightforward. I want this Assembly to be able to debate these matters and ultimately to decide what happens. I do not want the Executive to have that power and to be unaccountable. The Executive, on the back of the deal with the Liberal Democrats, announced this review. I am told that it was a prerequisite for the Liberal Democrats—without it they would not support a Labour administration. That is not a very savoury approach to politics. In effect, they are saying that we cannot have stable Government in Wales, increased spending on health and education or more help for farmers and free admission to museums—all Labour’s policies, funded by the Labour Government—unless they can gerrymander local government in a way that benefits their own political party. That is not democratic, nor is it much of a partnership.

It is never presented like that, but rather in terms of enhancing democracy and ensuring that votes count, making decision-makers more answerable. That is precisely what my amendment supports. Those people outside the Assembly, especially in local government, will not look on us charitably if we lecture others about their democracy while neglecting to do something about our own democracy.

Mae’r ymagwedd honno yn fyw ac yn iach o hyd. Os oes gan Aelodau’r Cynulliad unrhyw amheumon ynghylch sut y teimla llywodraeth leol am yr adolygiad hwn, gofynnwch y cwestiwn bach hwn i chi eich hunain, sut y teimlech chi fel Aelod etholedig o Gynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai Llywodraeth ganolog yn penderfynu cynnal adolygiad o’ch trefniadau etholiadol chi eich hunain, heb yn wybod ichi a heb eich cytundeb ymlaen llaw? Gwn sut y byddwn yn teimlo a chredaf felly fy mod yn gwybod sut y teimla llywodraeth leol ar hyn o bryd.

Mae fy ail bwynt yr un mor blaen. Yr wyf am i’r Cynulliad hwn allu cynnal dadl ar y materion hyn ac yn y pen draw benderfynu ar yr hyn a fydd yn digwydd. Nid wyf am i’r Weithrediaeth gael y pŵer hwnnw ac iddi beidio â bod yn atebol. Cyhoeddwyd yr adolygiad hwn gan y Weithrediaeth yn sgîl y fargen a drawyd gyda’r Democratiaid Rhyddfrydol. Dywedwyd wrthyf fod hyn yn hanfodol i’r Democratiaid Rhyddfrydol—a hebddo, ni fyddent yn cefnogi gweinyddiaeth Lafur. Nid yw honno’n ymagwedd iach iawn tuag at wleidyddiaeth. Yr hyn y maent yn ei ddweud mewn gwirionedd yw na allwn gael Llywodraeth sefydlog yng Nghymru, mwy o wariant ar iechyd ac addysg neu mwy o gymorth i ffermwyr a mynediad am ddim i amgueddfeydd—y cyfan yn bolisïau Llafur a ariennir gan y Llywodraeth Lafur—oni allant chwarae â ffiniau llywodraeth leol mewn modd a fydd yn fanteisiol i’w plaid wleidyddol eu hunain. Nid yw hynny’n ddemocrataidd, ac nid yw’n fawr o bartneriaeth ychwaith.

Ni chaiff byth ei chyflwyno felly. Yn hytrach fe’i cyflwynir yn nhermau gwella democratiaeth a sicrhau bod pleidleisiau’n cyfrif a bod y rhai sydd yn gwneud penderfyniadau yn fwy atebol. Dyna’n union beth y mae fy ngwelliant yn ei gefnogi. Ni fydd y bobl hynny y tu allan i’r Cynulliad, yn enwedig y rhai mewn llywodraeth leol, yn edrych arnom yn garedig os rhown bregeth i eraill am eu democratiaeth hwy tra’n methu â gwneud unrhyw beth ynghylch ein democratiaeth ein hunain.

I said earlier that I am not opposed to proportional representation in principle. However, I am opposed, on principle, to the backdoor deal that we are now being offered. It involves the Liberal Democrats propping up a Labour administration in return for a voting system that only they want, that would serve their vested interests and which must be forced through an Executive that they can influence through wheeler-dealing, and not agreed by the Assembly where the matter would be resolved through open debate. This development reflects the worst element of coalition politics. I draw comfort from the fact that, sooner rather than later, the commission will have to report to the Assembly. We would be failing in our duty unless we held the Executive to account and insisted on a full and open debate on a proposal that has profound implications for local government. I must confess that I have not yet persuaded the majority of my colleagues in the Labour group to embrace these proposals as enthusiastically as I would like.

As I am confident that the opportunity will arise in the future for us to return to this matter, I withdraw amendment 3.

Janet Davies: I am afraid that, after that interesting speech, I cannot reveal anything similar happening in the Plaid Cymru group. I will address some areas of the legislation. I am sure that all Members agree that it is crucial that local government is open and transparent and meets the needs of local people. The big question about this legislation is whether it meets those demands. Local government must balance democratic interaction and the need for efficiency in the provision of services. However, those are sometimes conflicting expectations; getting things done quickly is often in opposition to full consultation.

As regards elected mayors, it becomes clear that the scale is tipped towards efficiency, and that democracy would have a titanic struggle to get its voice heard. Getting people interested in politics and government through

Dywedais yn gynharach nad wyf yn gwrthwynebu cynrychiolaeth gyfrannol mewn egwyddor. Fodd bynnag, yr wyf, fel mater o egwyddor, yn gwrthwynebu'r fargen ddichellgar a gynigir inni yn awr. Golyga fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi gweinyddiaeth Lafur yn gyfnewid am system bleidleisio nad oes unrhyw un ond hwy yn ei dymuno, system sydd yn fanteisiol i'w buddiannau hwy ac y mae'n rhaid ei gwthio drwy'r Weithrediaeth fel y gallant gael dylanwad drwy fargeinio, a system na chytunir arni gan y Cynulliad, lle y câi'r mater ei ddatrys drwy ddadl agored. Mae'r datblygiad hwn yn adlewyrchu elfen waethaf gwleidyddiaeth glymblaid. Mae'r ffaith y bydd yn rhaid i'r comisiwn, yn hwyr neu'n hwyrach, roi adroddiad i'r Cynulliad yn gysur imi. Byddem yn esgeuluso ein dyletswydd oni fyddem yn sicrhau bod yr Weithrediaeth yn atebol ac yn mynnu bod dadl lawn ac agored yn cael ei chynnal ar gynnig sydd â goblygiadau difrifol i lywodraeth leol. Rhaid imi gyfaddef nad wyf wedi darbwyllo'r rhan fwyaf o'm cyd-Aelodau yn y grŵp Llafur i groesawu'r cynigion hyn mor frwd ag yr hoffwn.

Gan fy mod yn ffyddiog y daw cyfle eto yn y dyfodol inni ddychwelyd at y mater hwn, tynnaf welliant 3 yn ôl.

Janet Davies: Ofnaf, ar ôl yr araith ddiddorol honno, na allaf ddatgelu bod unrhyw beth tebyg yn digwydd o fewn grŵp Plaid Cymru. Ymdriniaf â rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth. Yr wyf yn siŵr y cytuna pob Aelod ei bod yn hollbwysig bod llywodraeth leol yn agored ac yn dryloyw ac yn diwallu anghenion pobl leol. Y cwestiwn mawr am y ddeddfwriaeth hon yw a yw'n ateb y gofynion hynny. Rhaid i lywodraeth leol gydbwysio rhyngweithio democrataidd a'r angen am effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, weithiau mae'r disgwyliadau hynny yn gwrthdaro; mae cyflawni pethau'n gyflym yn aml yn mynd yn groes i ymgynghoriad llawn.

O ran meiri etholedig, mae'n amlwg bod y fantol wedi troi o blaid effeithlonrwydd, ac y byddai gan ddemocratiaeth frwydr enfawr i sicrhau bod ganddi lais. Mae ysgogi pobl i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth a

the use of personalities is a false signal that sends government up a branch-line. The concept was imported originally from the United States of America by Margaret Thatcher, on the grounds of efficiency. There were barrow loads of objections from Labour councillors at the time. Therefore, why is the policy now being pursued by a Labour Government and being foisted on Wales? If the UK Labour Government seriously thinks that this will sort out any local problems that it may perceive in Welsh local government—which has been suggested in some broadsheet newspapers—it needs to think again.

At present, there are grave concerns about the implications of cabinet systems for democracy, in which a few councillors make decisions while others are left to scrutinise. One person taking decisions in a final analysis takes the cabinet system to an extreme, with a huge weighting towards potential efficiency against democracy. That would only happen if elected mayors were efficient, which will not necessarily be the case. I am sure that the Assembly's Minister for Finance, Local Government and Communities does not want to lose open democracy and equal opportunities. Her partners in the Government ran their recent election campaign on fairness, justice and honesty, which, all things considered, was impressive. However, given the history of government, the last thing that should be given space in our minds and actions is the replacement of new oligarchies by autocracies. A more progressive way forward, and more in keeping with the principles of openness, transparency and accountability, would be to move power outwards to area committees. While such committees would need to be limited within the strong principles of equal opportunities and human rights, they would be more local and more approachable.

Finally, I must emphasise the need for strong safeguards for the autonomy of planning and licensing committees, where the whole council must take final decisions, even though area committees could provide advice and recommendations on local conditions. I hope that, despite the primary legislation on elected mayors, the Government of Wales

llywodraeth drwy ddefnyddio unigolion yn gam gwag a fydd yn peri i lywodraeth fynd ar gyfeiliorn. Mewnforiwyd y cysyniad o Unol Daleithiau America gan Margaret Thatcher yn wreiddiol, ar sail effeithlonrwydd. Cafwyd cryn wrthwynebiad gan gynghorwyr Llafur ar y pryd. Felly, pam bod Llywodraeth Lafur yn dilyn y polisi yn awr a pham y caiff ei orfodi ar Gymru? Os yw Llywodraeth Lafur y DU yn meddwl mewn difrif y bydd hyn yn datrys unrhyw broblemau lleol y mae'n tybio sydd gan lywodraeth leol yng Nghymru—a awgrymwyd mewn rhai papurau newydd dalenni llydain—mae angen iddi ailfeddwl.

Ar hyn o bryd, mae pryderon mawr ynglŷn â goblygiadau systemau cabinet i ddemocratiaeth, lle y gwna nifer fach o gynghorwyr benderfyniadau tra bod y rhai sydd ar ôl yn ymgymryd â rôl graffu. Mae sefyllfa lle y mae un person yn gwneud penderfyniadau mewn dadansoddiad terfynol yn mynd â'r system gabinet i eithafion, gan droi'r fantol yn drwm o blaid effeithlonrwydd posibl ac yn erbyn democratiaeth. Dim ond os byddai meiri etholedig yn effeithlon y byddai hynny'n digwydd, ac nid yw hynny o reidrwydd. Yr wyf yn siŵr nad yw Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau am golli democratiaeth agored a chyfle cyfartal. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol ddiweddar ymgyrchodd ei phartneriaid yn y Llywodraeth dros degwch, cyfiawnder a gonestrwydd, a oedd, o ystyried popeth, yn dipyn o gamp. Fodd bynnag, o gofio hanes y llywodraeth, y peth olaf y dylem ei dderbyn yw disodli'r oligarchiaeth newydd gan awtocratiaeth. Ffordd fwy radical ymlaen, ac un a fyddai'n fwy cydnaws ag egwyddorion llywodraeth leol agored, dryloyw ac atebol, fyddai symud pŵer y tu allan i'r cabinet, i bwyllgorau ardal. Er y byddai angen cyfyngu ar bwyllgorau o'r fath o fewn egwyddorion cadarn cyfle cyfartal a hawliau dynol, byddent yn llawer mwy lleol a hygyrch.

I gloi, rhaid imi bwysleisio'r angen am gamau diogelu cryf i sicrhau annibyniaeth pwyllgorau cynllunio a thrwyddedu, lle y mae'n rhaid i'r cyngor cyfan wneud y penderfyniadau terfynol, er y gallai pwyllgorau ardal roi cyngor ac argymhellion ynglŷn ag amodau lleol. Gobeithiaf, er gwaethaf y ddeddfwriaeth sylfaenol ar feiri

will draw back as far as it is able and refrain from recommending such a structure of government. The ideas that come chugging through the Severn tunnel to a platform in Wales, could yet crash Welsh local government, particularly through such an undemocratic idea as elected mayors.

etholedig, y bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu yn ôl cymaint ag sydd yn bosibl ac yn ymatal rhag argymhell y fath strwythur llywodraethol. Gallai'r syniadau sydd yn ein cyrraedd yng Nghymru o ben arall twnel afon Hafren chwalu llywodraeth leol Cymru o hyd, yn enwedig drwy syniad mor annemocrataidd â meiri etholedig.

4:00 p.m.

Tom Middlehurst: I welcome these proposals, which are designed to make local government more open, accessible, responsive and accountable. In my experience, local government in Wales warmly embraces those principles.

Tom Middlehurst: Croesawaf y cynigion hyn, sydd â'r nod o sicrhau llywodraeth leol fwy agored, hygyrch, ac atebol ac sydd yn ymateb yn well. O'm profiad personol mae croeso cynnes i'r egwyddorion hynny gan lywodraeth leol yng Nghymru.

Local government has a good record and it has much of which to be proud. It delivers a range of services with a level of expertise few businesses would seek to provide or would be prepared to be responsible for. Local government has managed a process of change over several years in an exemplary manner. I am certain that it is up to the challenge posed by this new legislation.

Mae enw da gan lywodraeth leol ac mae llawer y gall ymfalchïo ynddo. Mae'n darparu ystod o wasanaethau gyda lefel o arbenigedd na fyddai llawer o fusnesau yn dymuno eu darparu neu'n barod i fod yn gyfrifol amdanynt. Mae llywodraeth leol wedi rheoli proses o newid dros nifer o flynyddoedd yn wych. Yr wyf yn siŵr y bydd yn wynebu'r her a gynigir gan y ddeddfwriaeth newydd hon.

In my view, local government is the bedrock of democracy in this country. It is equally highly valued by the communities that it serves. We in local government, and people in general, have been surprised by the results of independently conducted research on customer satisfaction with the range and level of services provided by local authorities. In general, local authorities are regarded as efficient and effective in most cases.

Yn fy marn i, llywodraeth leol yw conglaen democratiaeth yn y wlad hon. Mae yr un mor werthfawr i'r cymunedau a wasanaethir ganddi. Cawsom ni mewn llywodraeth leol, a phobl yn gyffredinol, ein syfrdanu gan ganlyniadau ymchwil annibynnol ar foddhad cwsmeriaid ag ystod a lefel y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, ystyrir awdurdodau lleol yn effeithlon ac yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion.

Local government was the bulwark that protected communities from the dark ages of Thatcherism. It was a target of much vilification by the Tories as they sought to undermine local government and local democracy and to centralise power.

Llywodraeth leol oedd yr amddiffynfa a ddiogelodd gymunedau yn ystod oes dywyll Thatcheriaeth. Cafodd ei difrio gymaint gan y Toriaid wrth iddynt geisio tansilio llywodraeth leol a democratiaeth leol a chanoli pŵer.

David Davies: Does the Member accept the words of his own Prime Minister and leader, Tony Blair, who said that many of the decisions taken in the 1980s may have been painful but were right?

David Davies: A yw'r Aelod yn derbyn geiriau ei Brif Weinidog a'i arweinydd ei hun, Tony Blair, a ddywedodd er i lawer o'r penderfyniadau a wnaethpwyd yn y 1980au fod yn boenus yr oeddent yn benderfyniadau cywir?

Tom Middlehurst: My Prime Minister, Tony Blair, would want to qualify that. He would not accept that the attacks on local government formed part of any benefits—which I have to search hard to find—that Thatcherism may have delivered for this country. Your party brought us massive cuts in funding, poll tax, compulsory competitive tendering and rate capping among many other blights. In many ways, we now live with the consequences of those years.

These proposals are about empowering people, making local government more relevant and responsive to community needs and aspirations and delivering local solutions to local needs. These new duties, powers and responsibilities are far reaching. They will radically change how policy is determined in local government, through consultation, as an aid to policy development, and through implementation and evaluation. It is a dynamic, continuous process, with communities engaged at all stages.

These are the fundamental issues that will revitalise local government. We do not need a sideshow and a debate about some incomprehensible system of electoral reform for local government in Wales. Not at this time, certainly. We embark on this fool's errand at the same time as we grapple with the new demands, challenges and opportunities that confront local government. It would serve us better and we would be better exercised if we were to consider how we can deliver further devolution to local government and communities and how they could take on more of the responsibilities that the National Assembly currently holds centrally. That is the kind of debate that we should have with people in Wales, not the irrelevance of a commission charged with looking at electoral arrangements in local government. People care little about how governments are elected. However, they care deeply about the outcomes and processes of government. This debate is about making decisions that are relevant to the needs of the people and engaging people in the process of government. We must not allow these important matters to be a smokescreen for the introduction of a proportional representation

Tom Middlehurst: Byddai fy Mhrif Weinidog, Tony Blair am oleddfdu hynny. Ni dderbyniai fod yr ymosodiadau ar lywodraeth leol wedi dod ag unrhyw fanteision posibl—y mae'n rhaid imi chwilio'n galed i ddod o hyd iddynt—i'r wlad hon yn sgîl Thatcheriaeth. Pan oedd eich plaid chi mewn grym gwelsom doriadau enfawr, treth y pen, tendro cystadleuol gorfodol a chapio trethi ymhlith lluo o felltithion eraill. Ar sawl ystyr, yr ydym bellach yn byw gyda sgîl-effeithiau'r blynyddoedd hynny.

Mae'r cynigion hyn yn ymwneud ag ymrymuso pobl, sicrhau bod llywodraeth leol yn fwy perthnasol ac yn ymateb yn well i anghenion a dyheadau cymunedau a rhoi atebion lleol i anghenion lleol. Mae'r dyletswyddau, pwerau a chyfrifoldebau newydd hyn yn bellgyrhaeddol. Byddant yn trawsnewid y ffordd y caiff polisiau eu pennu o fewn llywodraeth leol, drwy ymgynghori, fel cymorth i ddatblygu polisi, a thrwy weithredu a gwerthuso. Mae'n broses barhaus, ddeinamig, sydd yn cynnwys y cymunedau ar bob cam o'r ffordd.

Dyma'r materion hanfodol a fydd yn adfywio llywodraeth leol. Nid oes angen ryw eilbethau arnom na dadl ynglŷn â rhyw system annealladwy o ddiwygio etholiadol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Nid ar hyn o bryd yn sicr. Yr ydym yn dechrau'r ffolineb hwn ar yr un pryd ag yr ydym yn mynd i'r afael â gofynion, sialensau a chyfleoedd newydd a wyneba llywodraeth leol. Byddai'n well ac yn fwy buddiol inni pe baem yn ystyried sut y gallwn ddatganoli ymhellach i lywodraeth leol a chymunedau a sut y gallant hwy ysgwyddo mwy o'r cyfrifoldebau a ddelir yn ganolog gan y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd. Dyna'r math o ddadl y dylem ei chynnal gyda phobl Cymru, nid amherthnasedd comisiwn a sefydlwyd i ystyried trefniadau etholiadol mewn llywodraeth leol. Nid oes llawer o ots gan bobl sut y caiff llywodraethau eu hethol. Fodd bynnag, mae canlyniadau a phrosesau llywodraeth o bwys mawr iddynt. Mae'r ddadl hon yn ymwneud â gwneud penderfyniadau sydd yn berthnasol i anghenion pobl ac sydd yn cynnwys pobl yn y broses o lywodraethu. Rhaid inni beidio â gadael i'r materion pwysig hyn fod yn fodd o gelu unrhyw ymgais i gyflwyno system

system that will do nothing to improve public services in Wales.

David Lloyd: I declare an interest as a county councillor on Swansea City and County Council and as a general practitioner. Section 21 of the Local Government Act 2000 gives an increased role to scrutiny committees. It is their duty to hold the executive to account. Unfortunately, however, scrutiny committees across Wales are failing to serve their purpose. Local authorities are failing to adapt to the committees' increased role.

The membership of scrutiny committees must be politically balanced. It should be insisted upon that the chairs of scrutiny committees come from an opposition group of councillors. In Swansea City and County Council, the chairs of scrutiny committees all come from the ruling Labour group. Scrutiny committees chaired by members of the ruling group are less likely to be effective. They are often under pressure from council leaders. Measures must be taken to completely sever the links between the scrutiny committees and the cabinet and a separate secretariat should be set up to administer the scrutiny committees. Too often officers face conflicts of interest, because they serve both the cabinet and the scrutiny committee.

There is a question of what and when the committee scrutinises. A committee must scrutinise the policy-making process as well as the decisions taken. The committee must be involved in the policy-making process from start to finish. There is no point in having a scrutiny committee that only scrutinises the decisions taken by cabinet as, once taken, these can be difficult to rectify. Scrutiny committees will only be effective if they receive informed input from local residents and organisations, especially in those authorities where the scrutiny body is dominated by the council's majority group. The committee must be seen as an integral part of the authority and the public must be made aware of its role and of how to contact it. The scrutiny committee must use its right to summon officers and members to give

cynrychiolaeth gyfrannol na fydd yn gwneud unrhyw beth i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

David Lloyd: Datganaf fuddiant fel cynghorydd sir ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac fel meddyg teulu. Rhydd Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 rôl fwy i bwyllgorau craffu. Mae dyletswydd arnynt i sicrhau bod yr weithrediaeth yn atebol. Yn anffodus, mae pwyllgorau craffu ledled Cymru yn methu â chyflawni eu nod. Mae awdurdodau lleol yn methu ag ymaddasu i rôl ehangach y pwyllgorau.

Rhaid bod cydbwysedd gwleidyddol o ran aelodaeth y pwyllgorau craffu. Dylid mynnu bod cadeiryddion pwyllgorau craffu yn aelodau o grŵp o gynghorwyr o'r gwrthbleidiau. Yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe, mae cadeiryddion pwyllgorau craffu oll yn aelodau o'r grŵp Llafur sydd mewn grym. Mae pwyllgorau craffu a gadeirir gan aelodau o'r grŵp sydd mewn grym yn debygol o fod yn llai effeithiol. Maent yn aml o dan bwysau gan arweinwyr y cyngor. Rhaid cymryd mesurau i hollti'r cysylltiadau rhwng y pwyllgorau craffu a'r cabinet yn llwyr a dylid sefydlu ysgrifenyddiaeth ar wahân i weinyddu'r pwyllgorau craffu. Yn rhy aml mae buddiannau swyddogion yn gwrthdaro, am eu bod yn gwasanaethu'r cabinet a'r pwyllgor craffu.

Cyfyd cwestiwn ynghylch beth y dylai'r pwyllgor graffu arno a phryd. Rhaid i bwyllgor graffu ar y broses llunio polisiau yn ogystal â'r penderfyniadau a wneir. Rhaid i'r pwyllgor gymryd rhan yn y broses o lunio polisiau o'r dechrau i'r diwedd. Nid oes diben sefydlu pwyllgor craffu nad yw ond yn craffu ar y penderfyniadau a wneir gan y cabinet oherwydd gall fod yn anodd i'w hunioni. Ni fydd pwyllgorau craffu yn effeithiol oni chânt sylwadau hyddysg gan drigolion a sefydliadau lleol, yn enwedig o fewn yr awdurdodau hynny lle y mae grŵp mwyafrifol y cyngor yn tra-arglwyddiaethu yn y corff craffu. Rhaid i'r pwyllgor gael ei weld fel rhan annatod o'r awdurdod a rhaid i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'i rôl a sut i gysylltu ag ef. Rhaid i bwyllgorau craffu arfer eu hawl i alw ar swyddogion ac aelodau

information if that will assist the process. We must improve our scrutiny system in Welsh local government. That will only be achieved by effective Assembly guidance and legislation.

With the new cabinet structure in place, many councillors feel disenfranchised and isolated, and that their votes in council count for nothing. However, a new role can be crafted out for them as leaders of their communities, acting as a bridge between the community and the council. They can bring groups together and lead the formation of community strategies. They can take the hard decisions on what is finally included or excluded, what is developed or what is closed down. Councillors should also carry out the vital roles of scrutinising the decisions taken by cabinet and helping to develop policy.

From a health and social services perspective, the Local Government Act has serious implications for how local authorities address the Waterhouse report's important recommendations. Progress on this has been poor. The scrutiny panels set up by local authorities in place of old committee structures often cover wider policy areas. The social services departments may therefore be integrated into another policy division. The Waterhouse report demands accountability, which may be lost if social services departments are not scrutinised effectively. We must make it a priority to ensure that the Local Government Act does not hinder local authorities in addressing the recommendations of the Waterhouse report.

Gwenda Thomas: I also wish to raise concerns about the position of social services within the new proposed structures for local government. Under the cabinet system, the political responsibility for delivering social services could fall on the shoulders of one person. Having a social services committee is no longer required, although the post of director of social services remains. I am pleased that paragraph 8(11) is included in the 'Guidance for County and County

i roi gwybodaeth os bydd hynny o gymorth i'r broses. Rhaid inni wella ein system graffu o fewn llywodraeth leol yng Nghymru. Dim ond drwy ganllawiau a deddfwriaeth effeithiol gan y Cynulliad y gellir cyflawni hynny.

Ar ôl sefydlu'r strwythur cabinet newydd, teimla llawer o gynghorwyr eu bod wedi'u difreinio a'u hynysu, ac nad yw eu pleidleisiau ar y cyngor yn cyfrif. Fodd bynnag, gellir llunio rôl newydd iddynt fel arweinwyr eu cymunedau, gan bontio rhwng y gymuned a'r cyngor. Gallant ddod â grwpiau ynghyd ac ymgymryd â rôl arweiniol i lunio strategaethau cymunedol. Gallant wneud y penderfyniadau anodd ar yr hyn y dylid ei gynnwys neu ei hepgor yn y polisi terfynol, yr hyn y dylid ei ddatblygu neu'r hyn y dylid ei gau. Dylai cynghorwyr hefyd ymgymryd â'r rolau hollbwysig o graffu ar y penderfyniadau a wnaethpwyd gan y cabinet a helpu i ddatblygu polisiau.

O safbwynt iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae i Ddeddf Llywodraeth Leol oblygiadau difrifol o ran sut y mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag argymhellion pwysig adroddiad Waterhouse. Araf fu'r cynnydd ar hyn. Mae'r paneli craffu a sefydlwyd gan awdurdodau lleol yn lle'r hen strwythur pwyllgorau yn aml yn cwmpasu meysydd polisi eang. Felly gallai adrannau gwasanaethau cymdeithasol fod wedi'u hintegreiddio ag is-adran bolisi arall. Mae adroddiad Waterhouse yn mynnu atebolrwydd, a allai gael ei golli os na chreffir ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol. Rhaid inni sicrhau bod hynny yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau na fydd y Ddeddf Llywodraeth Leol yn rhwystro awdurdodau lleol rhag mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Waterhouse.

Gwenda Thomas: Hoffwn innau hefyd nodi pryderon ynglŷn â safle gwasanaethau cymdeithasol o fewn y strwythurau newydd arfaethedig ar gyfer llywodraeth leol. O dan y system gabinet, gallai'r cyfrifoldeb gwleidyddol dros ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ddisgyn ar ysgwyddau un person. Nid oes rhaid cael pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol bellach, er bod swydd cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn parhau. Mae'n dda gennyf

Borough Councils in Wales on Executive Arrangements', but I remain concerned that there is no clear guidance on the implementation of the Waterhouse recommendations as they affect local government within the executive arrangements. Neither is there adequate guidance on scrutiny.

Recommendation 61 of the Waterhouse report, 'Lost in Care', states

'the willingness of councillors to visit children's homes should be a pre-condition of appointment to the committee responsible for the homes and the importance of fulfilling the duty to visit and to report on visits conscientiously should be emphasised to them. Elected members should be provided with appropriate guidance, including reference to the need to be vigilant in protecting the interests of the child residents as well as to be supportive of the staff.'

4:10 p.m.

Recommendation 58 states that,

'Elected members should from time to time be advised and reminded of their responsibilities to develop policy and to oversee and monitor the discharge by the local authority of its parental obligations towards looked after children.'

Recommendation 59 states that,

'It should be the explicit duty of the Director of Social Services to assist and support elected members in discharging these responsibilities and, in particular,

(a) to inform elected members of all matters of concern touching upon children's services, including reports upon them, whether adverse or favourable.'

Would it not be wise to include, within the new proposed structure, a statutory requirement that a committee with responsibility for children's issues be set up in every local authority? One of the key points of the Children's Act 1989, is that a

nodi bod paragraff 8(11) wedi'i gynnwys yn y 'Guidance for County and County Borough Councils in Wales on Executive Arrangements', ond pryderaf o hyd nad oes canllawiau clir ar weithredu argymhellion Waterhouse fel yr effeithiant ar lywodraeth leol o fewn y trefniadau gweithredol. Nid oes digon o ganllawiau ar y broses graffu ychwaith.

Noda argymhelliad 61 adroddiad Waterhouse, 'Ar Goll mewn Gofal',

'dylai parodrwydd cynghorwyr i ymweld â chartrefi plant fod yn un o ragamodau cael eu penodi i'r pwyllgor sydd yn gyfrifol am y cartrefi a dylid pwysleisio iddynt bwysigrwydd cyflawni dyletswyddau ymweld a llunio adroddiadau am ymweliadau yn gydwybodol. Dylid darparu arweiniad priodol i'r aelodau etholedig, gan gynnwys cyfeirio at yr angen i fod yn wyliadwrus wrth ddiogelu buddiannau'r plant preswyl yn ogystal â bod yn gefnogol i'r staff.'

Noda argymhelliad 58,

'Dylid cynghori aelodau etholedig o bryd i'w gilydd a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau i ddatblygu polisi a goruchwylio a monitro'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ymrwymadau fel rhiant tuag at blant y gofelir amdanynt.'

Noda argymhelliad 59,

'Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ddylai fod â'r ddyletswydd benodol i gynorthwyo a chefnogi aelodau etholedig wrth iddynt gyflawni'r cyfrifoldebau hynny ac, yn arbennig,

(a) hysbysu'r aelodau etholedig o bob mater o bryder sydd yn ymwneud â gwasanaethau plant, gan gynnwys adroddiadau amdanynt, p'un a ydynt yn andwyol neu'n ffafriol;'

Oni fyddai'n ddoeth cynnwys gofyniad statudol, o fewn y strwythur newydd arfaethedig, fod yn rhaid sefydlu pwyllgor â chyfrifoldeb dros faterion plant ym mhob awdurdod lleol? Un o bwyntiau allweddol Deddf Plant 1989 yw bod lles plentyn o'r

child's welfare is paramount and safeguarding and promoting it is the priority. I would welcome clearer guidance on the need for the responsibilities of local authority members, both individual and collective, to be specific. If we miss out on yet another opportunity to safeguard and promote the welfare of our children, we will not be forgiven.

Peter Black: I declare an interest as a county councillor on the Swansea City and County Council. I welcome the secondary legislation before us. It fulfils the commitment made in the partnership agreement to implement the Local Government Act 2000 to achieve the maximum possible openness, accountability and participation by backbench councillors. In particular, the fourth option, to which Janet Ryder referred earlier, which although still bound by the executive scrutiny split in the Act, is more inclusive and accountable and allows for wider participation by councillors in the policy making process. It also allows for local decision making through area committees and is more suitable than the cabinet system for the more rural areas of Wales, although it can also be adopted to urban councils. That is one reason why councillors are seriously considering that option. Hopefully they will introduce it when they come to review their own structures. Janet Ryder may not like the fourth option, but she has not made a viable alternative proposal of which I am aware, certainly not one that fits into the Act within which these regulations must work.

I also welcome the provision that council cabinets meet in public under the terms of the Local Government (Access to Information) Act 1985. There is a long tradition in local government of meetings taking place in public and it is important that that is not lost in the new structures. Wales, as the Minister said, is leading the way on this and is significantly ahead of England in insisting on this kind of openness. I hope that councils will embrace the spirit as well as the letter of the regulations.

pwys mwyaf ac mai diogelu a hyrwyddo ei les yw'r flaenoriaeth. Hoffwn ganllaw cliriach ar yr angen i nodi cyfrifoldebau aelodau awdurdodau lleol, boed yn unigol neu ar y cyd. Os collwn gyfle arall eto i ddiogelu a hyrwyddo lles ein plant, ni fydd pobl yn maddau inni.

Peter Black: Datganaf fuddiant fel cynghorydd sir ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Croesawaf yr is-ddeddfwriaeth ger ein bron. Mae'n cyflawni'r ymrwymiad a wnaethpwyd yn y cytundeb partneriaeth i weithredu Deddf Llywodraeth Leol 2000 i sicrhau'r llywodraeth leol fwyaf agored ac atebol posibl a'r cyfranogiad mwyaf posibl gan gynghorwyr y meinciau cefn. Yn arbennig, mae'r pedwerydd opsiwn, y cyfeiriodd Janet Ryder ato yn gynharach, sydd yn parhau i fod yn rhwym i'r gofyniad i rannu'r broses graffu a'r weithrediaeth yn y Ddeddf, yn fwy cynhwysol ac atebol ac yn caniatáu am gyfranogiad ehangach gan gynghorwyr yn y broses llunio polisiau. Mae hefyd yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn lleol drwy bwyllgorau ardal ac mae'n llawer mwy addas na'r system gabinet ar gyfer ardaloedd mwyaf gwledig Cymru, er y gellir ei fabwysiadu hefyd mewn cynghorau trefol. Dyna un rheswm pam bod cynghorwyr yn ystyried yr opsiwn hwnnw o ddifrif. Gobeithiaf y byddant yn ei gyflwyno pan fyddant yn adolygu eu strwythurau eu hunain. Efallai nad yw Janet Ryder yn hoffi'r pedwerydd opsiwn, ond nid yw wedi gwneud unrhyw gynnig ymarferol yn ei le, hyd y gwn i, yn sicr nid yw wedi cynnig unrhyw beth sydd yn gweddu â'r Ddeddf y mae'n rhaid i'r rheoliadau hyn weithio yn unol â hi.

Croesawaf hefyd y ddarpariaeth i gabinetau cynghorau gyfarfod yn gyhoeddus o dan amodau Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) 1985. Mae hen draddodiad o fewn llywodraeth leol o gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus ac mae'n bwysig inni beidio â cholli hynny yn y strwythurau newydd. Mae Cymru, fel y dywedodd y Gweinidog, ar flaen y gad yn hynny o beth ac mae'n sicr ar y blaen i Loegr o ran mynnu'r math hwn o lywodraeth leol agored. Gobeithiaf y bydd cynghorau yn croesawu ysbryd yn ogystal â llythren y rheoliadau.

It is not a secret that the Liberal Democrats have never been happy with the Act as it stands. It seems to be an attempt by the UK Government to reinvent local councils in its own image. Many councillors have been struggling to come to terms with the changes, as have the press and the public, who in many cases perceive that their rights of access to information have been curtailed. Through these measures today, we are seeking to make the best of what we have to enable councils to retain best practice whenever they can. We have crafted a distinctive Welsh solution to that particular issue in these regulations. The proposals to consult are the most important part of these measures as they mean that local people will have a say on how their council will be run. The important part of that, however, is that consultation must be meaningful and not the kind of token ask-the-people exercises that some councils have embarked on in the past.

I do not wish to go through the amendments in great detail, but I will comment briefly on three or four of them. Ron Davies's amendment 3 is out of place. It seeks to preempt and undermine an independent investigation by pretending that the future of local government should lie principally in the hands of the WLGA. That is not the case. The fact that this commission has been given a wide brief of consulting across the country and talking to as many people as possible underlines its independence. Local democracy is a matter for us all, not just the WLGA, although it is an important partner in that process and is a part of that consultation exercise.

William Graham's amendment 5 is already in place in terms of current practice, case law and the Local Government (Access to Information) Act 1985. I have much sympathy with this amendment, as does the Minister, other than the fact that it does not refer to the exemptions, which is also important. My understanding of William Graham's amendment 6, however, is that the Assembly does not have the power, other than through the fourth option that we have put together, to stipulate who chairs scrutiny

Nid yw'n gyfrinach na fu'r Democratiaid Rhyddfrydol erioed yn fodlon ar y Ddeddf fel ag y mae. Ymddengys ei bod yn ymgais gan Lywodraeth y DU i ail-greu cynghorau lleol ar ei delw ei hun. Mae llawer o gynghorwyr wedi cael anhawster i ddygymod â'r newidiadau, ynghyd â'r wasg a'r cyhoedd, sydd mewn llawer o achosion yn teimlo bod eu hawl i gael mynediad i wybodaeth wedi'i chwtochi. Drwy'r mesurau hyn heddiw, yr ydym yn ceisio gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym er mwyn galluogi cynghorau i gynnal arfer gorau pryd bynnag y gallant. Yr ydym wedi llunio ateb Cymreig unigryw i'r mater penodol hwnnw yn y rheoliadau hyn. Y rhan bwysicaf o'r mesurau hyn yw'r cynigion i ymgynghori gan eu bod yn golygu y bydd llais gan bobl leol ar sut y caiff eu cyngor ei redeg. Fodd bynnag yr hyn sydd yn bwysig yn hynny o beth yw bod yn rhaid i ymgynghoriad fod yn ystyrllon ac nid y math o ymarfer 'ceisiwch farn y bobl' symbolaidd y mae rhai cynghorau wedi ei gynnal yn y gorffennol.

